tafod elái

CHWEFROR 2022

Rhif 364

Pris £1

Ethol i Senedd Ieuenctid Cymru

Yn yr etholiadau ym mis Tachwedd roedd 300 o bobl ifanc wedi ymgeisio am 60 sedd ar Senedd Ieuenctid Cymru. Etholwyd Ffion Fairclough, Ysgol Garth Olwg, yn aelod o'r Senedd a dyma ei chyflwyniad -

Helo, fy enw i yw Ffion Fairclough, rwy'n 16 ac rwyf wedi cael fy newis i gynrychioli Pontypridd yn y Senedd Ieuenctid. Mae'r ardal hon yn golygu llawer iawn i mi, ond rwy'n credu ein bod ni, pobl ifanc Pontypridd yn haeddu gwell. Yn yr ardal hon, mae dros chwarter y plant a'r bobl ifanc yn byw mewn tlodi. Mae'r nifer o bobl sy'n dioddef gydag iechyd gwael yn uwch na gweddill Cymru ar gyfartaledd, ac mae yna nifer fwy yn gadael ysgol heb unrhyw gymwysterau. Ond eto, does yna ddim byd yn ein DNA sy'n dweud bod yn rhaid i ni fod yn dlotach, yn fwy sâl, neu y dylen ni gael llai o gyfleoedd nag unrhyw un arall.

Mae'r ardal hon yn le gwych i fyw, ond mae angen mwy o gefnogaeth arni er mwyn rhoi dyfodol gwell i bobl ifanc. Rwy'n edrych ymlaen at gymryd y rôl yma i drafod a thrio datrys rhai o'r problemau sy'n cael ei wynebu yma megis lleihau costau trafnidiaeth gyhoeddus fel nad oes angen talu £7.70 i fynd ar drên i Gaerdydd ac yn ôl. Maen nhw'n sôn am daclo newid hinsawdd trwy annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, ond pam fydd pobl yn gwneud hynny gyda swm mor fawr i'w dalu? Mi fyddaf hefyd yn ffocysu ar gefnogi pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol a rhoi gwell cyfleoedd a chyfleoedd cyfartal i bawb sy'n byw yn y Cymoedd.

Canfod Trysor

Mae pump canfyddiad o gyfnodau'r Oes Efydd, canoloesol ac ôl-ganoloesol a ddarganfuwyd yn Ne Cymru wedi cael eu cadarnhau yn drysor.

Yn eu plith mae pâr o fachau gwisg gild arian a gafodd eu darganfod yn Rhondda Cynon Taf. Mae Amgueddfa Cymru yn gobeithio caffael y trysor hwn, yn dilyn prisiad annibynnol gan y Pwyllgor Prisio Trysor.

Hefyd cafodd celc o wrthrychau efydd o ddiwedd yr Oes Efydd ei ganfod yn Rhondda Cynon Taf. Cafodd y gwrthrychau eu claddu mewn cors bron i 3,000 o flynyddoedd yn ôl, mae'n bosibl i'r gwrthrychau gael eu claddu fel rhodd i'r duwiau oedd yn byw yn y gwlypdiroedd hyn.

Rhaid i ganfyddiadau Trysor gael eu datgan a'u trosglwyddo i staff Cynllun Henebion Cludadwy Cymru (PAS Cymru) ac Amgueddfa Cymru, fel y prif sefydliad treftadaeth sy'n rheoli canfyddiadau Trysor yng Nghymru.

£10

Mae'n amser tanysgrifio unwaith eto i dderbyn Tafod Elái.

Gofynnwn i chi fynd i wefan TafodElai.cymru a thalu drwy'r linc gyda cherdyn debyd neu credyd. Diolch i bawb sydd wedi tanysgrifio yn barod dros y we neu i'n dosbarthwyr.

Sgwad Gymnasteg Cymru

Mae ysgol y Dolau yn hynod o falch o Dewi Thomas am lwyddo i gael ei ddewis ar gyfer sgwad gymnasteg Cymru (Welsh Gymnastics MAG Foundation Squad). Mae Dewi yn ddisgybl ym mlwyddyn 3 sydd wedi bod wrthi ers blynyddoedd bellach yn datblygu ei sgiliau gymnasteg ac mae'n haeddu'r holl lwyddiant sy'n dod ei ffordd. Mae Dewi yn un o ddau o fechgyn yn unig (o'r grŵp oedran yma) sydd wedi'u dewis i gynrychioli Cymru. Llongyfarchiadau gwresog i ti Dewi!

Adnewyddu Llwyfan Seindorf

Bydd ymwelwyr â Pharc Coffa Ynysangharad yn sylwi ar waith adnewyddu'r llwyfan seindorf a'r ardd isel, a darparu canolfan weithgareddau newydd. Bydd y gwaith yn parhau drwy gydol 2022.

Mae'r gwaith sylweddol gwerth £1.9 miliwn wedi'i ariannu gan gyllid o Gronfa Dreftadaeth y Loteri, a chyfraniadau gan gyllid Trawsnewid Trefi y Cyngor a Llywodraeth Cymru.

Bydd y prosiect yn gwella ac adnewyddu nodweddion treftadaeth y parc, sy'n barc rhestredig Gradd II, er mwyn denu rhagor o ymwelwyr a chynnig cyfleoedd angenrheidiol i'r gymuned gymryd rhan, ymgysylltu a dysgu.

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Mawrth
i gyrraedd erbyn
18 Chwefror 2022

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafodelai.cymru

Argraffwyr:
EVANPRINT
www.evanprint.co.uk

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

CLWB Y DWRLYN

"Fy nhrysor i"

8.00yh Nos Iau,
17 Chwefror 2022

Yng Nghlwb Rygbi Pentyrch

Manylion oddi wrth:
clwbydwrlyn@pentyrch.cymru

Cylch Cadwgan

11 Chwefror 2022,
nos Wener, 7.30pm
Myrdd o ryfeddodau – rhai o hoff gerddi
Glenys M Roberts
Trefnir gan gapel
y Tabernacl, Efailisaf
Cyfarfod Zoom

10 Mawrth 2022, nos Iau, 7.30
Delweddau o Cynan
Yr Athro Gerwyn Williams
Trefnir gan Gymdeithas
Gymraeg Llantrisant
Cyfarfod Zoom

Mae Cylch Cadwgan yn bartneriaeth rhwng Bethlehem, Gwelodd y Garth; Tabernacl, Efail Isaf; Cangen y Garth, Merched y Wawr; Clwb y Dwrlyn a Chymdeithas Gymraeg Llantrisant.

Cylch Llyfryddol Caerdydd

Mae'r Cylch yn cyfarfod am 7.00pm ar nos Wener unwaith y mis dros fisoedd y gaeaf. I dderbyn y ddolen i ymuno â'n cyfarfodydd ar Zoom anfonwch at yr Ysgrifennydd, E. Wyn James: JamesEW@caerdydd.ac.uk

Gwener, 18 Chwefror 2022
Holi Lleucu Roberts, enillydd 'y dwbwl dwbwl rhyddiaith', am ei chyfrolau arobryn yn Eisteddfod AmGen 2021.

Cwmni Sy'n Rhoi Nôl

Mae Sara Mair Bellshaw sy'n wreiddiol o Bontypridd yn cychwyn ar fenter newydd sy'n cynnig anturiaethau yn yr Alban, Gwlad yr Ia, Sweden, Iwerddon a'r Ffindir (a mwy yn y dyfodol).

Mae cwmni Slow Adventure yn creu mudiad byd-eang o bobl sy'n deall nad yw bellach yn bosibl anturio heb roi rhywbeth yn ôl. Mae angen i dwristiaeth a theithio antur gael eu creu a'u siapio gan bobl leol sy'n coleddu ac yn gwarchod lle maent yn byw. Mae Slow Adventure yn fudiad llawr gwlad sy'n grymuso pobl leol, yn cefnogi cyllid cadwraeth teg a thryloyw, ac yn eich helpu i ddewis sut i roi yn ôl bob tro y byddwch yn cyflawni antur.
https://www.slow-adventure.com/
https://www.facebook.com/slowadventuring

CLWB Y DWRLYN

Mae Clwb y Dwrlyn yn trefnu'r cyfarfod cyntaf eleni yng Nghlwb Rygbi Pentrych ar nos Iau yr 17eg o Chwefror 2022.
Y bwriad ydi cynnal noson ar y thema "Fy nhrysor i".

Mae'r Pwyllgor wrthi'n paratoi rhaglen am weddill y tymor fel a ganlyn:-

2022:

6ed o Fawrth – Cinio Gŵyl Dewi yng Nghlwb Golff Radur, gyda'r gwestai, Deian Hopkin.
21ain o Ebrill – Noson Brethyn Cartref yng Nghlwb Rygbi Pentyrch, dan ofal Geraint Hughes.
19eg o Fai – Noson Gerddorol yng Nghlwb Rygbi Pentyrch.
Mehefin (dyddiad i'w gadarnhau) – Taith i Went yng nghwmni Frank Olding
1af - 3ydd o Orffennaf – Penwythnos yn Llangollen (os nad ydych eisoes wedi trefnu i ddod, yna gall y bydd lle ychwanegol ar gael erbyn eleni.)

Gwener, 18 Mawrth 2022
Sgwrs gan Dr Siwan Rosser ar y testun 'Darllen y Dychymyg', sef teitl ei chyfrol ddiweddar ar lenyddiaeth Gymraeg i blant a gyrhaeddodd restr fer Llyfr y Flwyddyn 2021.

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Penblwydd Arbennig
Llongyfarchiadau i Rhodri Gwynn Jones wedi iddo ddathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar.

Yn ogystal, roedd diwedd mis Ionawr yn gyfnod arbennig i Eira Williams wrth iddi gyrraedd ei phenblwydd yn wythdeg.

Gobeithio i bawb fwynhau y dathlu.

Cydymdeimlad
Trist yw nodi bod Delwyn Tibbott wedi marw cyn y Nadolig. Bu yn byw am flynyddoedd lawer ym Mhentyrch gyda'i wraig Minwel cyn iddo symud i Landaf.

Cydymdeimlwn gyda Bethan Griffiths a'r teulu wedi i Bethan golli ei mam yn yr Hydref.

Cydymdeimlwn hefyd gydag Ann Dwynwen a 'r teulu yn dilyn marwolaeth brawd Ann wedi cystudd hir.

Erthygl Ddiddorol
Ymddangosodd erthygl ddiddorol iawn ym mhapur y Sun yn ddiweddar yn tynnu sylw at fenywod ifanc oedd â Syndrom Down ac yn byw bywydau llawn. Ysgrifennodd tair am eu profiadau wrth fyw bywydau diddorol. Un oedd yr actores Dr Sarah Gordy MBE, yr ail oedd yr athletwraig Jade Kingdom a'r drydedd oedd ein Sara Pickard ni sy'n gweithio i'r Llywodraeth yma yng Nghaerdydd.

Bydd darllenwyr Tafod Elái yn gyfarwydd â holl orchestion Sara ac eglura yn yr erthygl fod pobl yn rhyfeddu pan mae'n dweud wrthynt ei bod yn gweithio i'r Llywodraeth, yn siarad dwy iaith, ei bod wedi teithio'r byd yn ogystal â bod yn gynghorydd cymunedol. Fel mae'n digwydd mae cyfnod Sara yn gweithio i'r Llywodraeth yn dod i ben ym mis Ionawr ac fe fydd yn ailgydio yn ei gwaith gyda Mencap Cymru ym mis Chwefror. Dymunwn yn dda i Sara wrth iddi barhau i fod yn ysbrydoliaeth i ni i gyd.

Os hoffech ddarllen yr erthygl ewch i: www.thesun.co.uk/fabulous/17223575/downs-syndrome-amazing-lives

Merched y Wawr Y Garth - noson yng nghwmni Dr Heledd Jones

Nôl ym mis Rhagfyr cawsom dreulio awr hynod ddiddorol drwy gyfrwng zoom yng nghwmni y meddyg teulu Dr Heledd Jones. Am sgwrs ysbrydoledig! Am agoriad llygad! Ar hyn o bryd mae Dr Heledd yn rhannu ei hwythnos waith - tridie, mae'n feddyg teulu prysur yn Nhrebute, Caerdydd a gweddill yr wythnos mae'n Diwtor i ddarpar feddygon, Coleg Prifysgol Caerdydd. Yn ogystal â hyn mae'n cynnig ei gwasanaeth i'r mudiad CAVHIS sy'n estyn gofal iechyd i geiswyr lloches yn y brifddinas. Swydd amrywiol - swydd heriol. Ond yng ngeiriau Dr Heledd 'swydd rewarding!'. Sori - don inne'n methu dod lan â'r union air chwaith! Ond deall byrdwn ei neges yn iawn. Nôl cyn 'Dolig roedd Dr Heledd newydd ddychwelyd o *stint* arall allan yng ngwersyll ffoaduriaid Calais. Profiad dirdynnol. Mae'r hyn welwn ar ein sgriniau teledu yn ddirdynnol ddigon - ond roedd gwrando ar brofiadau Dr Heledd yn sôn am y ddarpariaeth cymorth cyntaf maent yn ei rannu fel tîmau o wirfoddolwyr yn mynd at eich calon. Dysgom bod Caerdydd, Wrecsam, Abertawe a Chasnewydd yn barod wedi derbyn nifer o geiswyr lloches o wledydd megis Syria, Venezuela, Afghanistan, De Sudan a Myanmar - i enwi ond ychydig. Bydd y teuluoedd/unigolion yn cael cymorth i ymgartrefu yma - yn cael cynnig cymorth a chyngor meddygol - ac yn derbyn £5.64 y dydd i'w cynorthwyo i brynu hanfodion megis bwyd a dillad. Mae'r broblem yn anferthol - yn ddyrys - ond mae pobol ysbrydoledig fel Dr Heledd wedi mynd ati i wneud rhywbeth positif - i gynnig cymorth lle bo'i angen - a hynny yn ei hamser ei hun, yn hollol wirfoddol. Gwnaeth apêl syml ar y noson - i unrhywun fasai'n dymuno cyfrannu i'r prosiect - gysylltu â FAST - sef First Aid Support Team - fel bo'r gwirfoddolwyr yn gallu prynu moddion a thabledi a deunyddiau cymorth cyntaf. Diolch Dr Heledd am agor ein llygaid! Diolch am y gwaith arbennig rych chi a'ch cyd-weithwyr yn ei gyflawni. Pob lwc i'r dyfodol!

CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
colin.williams@talktalk.net

Llongyfarchiadau mawr . . .
. . . Steffan Môn ar ennill gradd MSc gyda Rhagoriaeth mewn Cyfrifiadureg Pellach ym Mhrifysgol Abertawe, gan gofnodi marciau uchaf y cwrs! Ardderchog, Steffan! Pob lwc i ti wrth i ti gychwyn ar y bennod nesa yn dy fywyd ym myd gwaith.
. . . **Aron Môn**. Gwnaeth Aron ennill ei MSc mewn Datblygiad Rhyngwladol ym Mhrifysgol Caeredin. Pob dymuniad da i tithau yn dy yrfa!

Dymuniadau gorau . . .
. . . Llinos Honeybun, wrth i ti gychwyn ar gyfnod cyffrous iawn o waith ymchwil yn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Yn yr Adran Biowyddorau mae Llinos - a phob lwc i ti wrth i ti weithio at dy Ddoethuriaeth. Cawn ddarllen geiriau Llinos ei hun i ddysgu mwy am y maes arbennig yma

Nod y prosiect yw ymchwilio i driniaethau ar gyfer clefyd CLN3, sef y clefyd niwroddirywiol mwyaf cyffredin mewn plant. Wrth astudio yn labordy Emyr Lloyd-Evans yn yr ysgol Biowyddorau, rydw i'n ceisio deall mwy am beth sy'n digwydd yng nghelloedd CLN3, megis newidiadau mewn lefelau proteinau neu siwgrau. Ar ôl darganfod effeithiau CLN3 ar y gell, byddaf yn sgrinio am gyffuriau sy'n gwella'r clefyd. Y gobaith yw darganfod triniaeth sy'n addasu'r clefyd yn hytrach na thrin symptomau.

Gwella'n dda!
Mae'n dda gweld bod **Margaret Oehler** yn gwella'n ardderchog ar ôl ei llawdriniaeth ddiweddar! Hysbyseb wych i'r gweddill ohonom! Cofion atat!

Telynores ifanc, ddawnus!

Llongyfarchiadau mawr i'r delynores Erin Fflur Jardine, 13 oed o Dreforgan am gael ei dewis i fod yn aelod o Gerddorfa Ieuenctid Prydain. Fe fydd y gerddorfa o 164 o gerddorion ifanc o bob cwr o Brydain yn cymryd rhan mewn tri chwrs perswyl yn ystod y flwyddyn a'n perfformio mewn cyngherddau ar draws wlad. Mae Erin newydd ddychwelyd o'i chwrs cyntaf ym Mhrifysgol Warwick, lle ar y noson ola cafwyd cyngerdd mawreddog o weithiau Rachmaninoff, Thomas Ades a Gabriela Lena Frank yng nghanolfan Gelfyddydol Warwick. Mwynheuodd Erin y profiad yn fawr ac mae'n edrych mlaen at y cwrs dros wyliau'r Pasg.

LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN

Gohebydd y mis:
Nia Donnelly

Ffarwel i Jean
Dymunwn yn dda i Jean Davies yn ei chartref newydd. Symudodd Jean a Denzil, ei gwr, i Elm's Park Mesigyn pan adeiladwyd y tai yn 70au y ganrif ddiwethaf gan fagu tri o blant yno, Jonathan, Simon a Jane. Bu yn athrawes yn Ysgol Gynradd Tonysguboriau ac yn aelod selog a gweithgar o eglwys Dewi Sant, Meisgyn. Parhaodd Jean i fyw yn Elm's Court wedi i'r plant adael y nyth a marwolaeth Denzil. Mae Jean yn wreiddiol o Gwm Tawe ac yn siarad Cymraeg â thafodiaith unigryw ardal ei magwraeth. Diddorol oedd galw i gael sgwrs gyda hi am ei theithiau tramor, yn enwedig hanes aelodau o'i theulu oedd ar y Titanic a byddwn yn colli ei chwmni. Nawr mae Jean yn gallu mwynhau gwahodd ei ffrindiau i'w fflat newydd yn y Bontfaen. Erbyn hyn mae teulu newydd wedi ymgartrefu yn Elm's Park gyda thri o blant eraill yn mwynhau byw yn y pentref.

Pen-blwydd Hapus
Dymuniadau gorau i Dennis Scott, Coed Castan, Meisgyn ar ei ben-blwydd arbennig y mis yma.

Bwth ffon gyda swydd newydd
Da gweld fod y bwth coch ger y Miskin Arms wedi cael swydd newydd gan ddod yn lleoliad i ddiffibrilwr.

Chwaraeon
Llongyfarchiadau i Ellis Williams, Southgate, Llantrisant a Noah West, Meisgyn ar gael eu dewis i garfan pêl fasged Cymru, dan 14. Mae'r ddau yn ddisgyblion yn ysgol Llanhari ac yn chwarae eu pêl fasged i dîm lleol Pontypridd. A da iawn i dîm rygbi Llantrisant dan 14 am gyrraedd rownd wyth olaf cwpan rhanbarth y Gleision. Cafwyd buddugoliaeth ganol mis Ionawr yn erbyn Clwb Ystum Taf ac mi fydd y rownd nesaf mewn ychydig wythnosau. Gyda phencampwriaeth y chwe gwlad ar y gorwel mae Côr Tadau Trisant wedi bod yn ffodus iawn i gael eu dewis i ganu'r Anthemau cyn gem Cymru a'r Eidal.

Pasio Prawf Gyrru
Llongyfarchiadau i Gruff Morgan, Meisgyn ar basio ei brawf gyrru ar ei dro cyntaf, llai na 5 mis ers iddo droi'n 17 oed! Gobeithio bydd dim gormod o gwympo mas rhyngddo fe a'i frawd Rhys am bwy sy'n mynd allan yn y car!

Ysgol Pont Siôn Norton

Partïon Nadolig
Diolch i Ffrindiau PSN am drefnu y partïon Nadolig i bob dosbarth. Cafwyd llawer o hwyl ac roedd neges gan Siôn Corn yn uchafbwynt! Diolch hefyd i Ffrindiau PSN am roi calendar adfent i bob disgybl yn yr Ysgol er mwyn i bawb gael rhywbeth arbennig bob dydd wrth arwain at y Nadolig. Hyfryd!

Lapio'r Nadolig
Aeth plant blwyddyn 2 i Eglwys Elim i wylio 'Lapio'r Nadolig', creu bisgedi Nadolig a chrefft Nadolig. Diolch i Mr Coleman am y neges bwysig, y gweithgareddau a'r croeso!

Ras Rwdolff
Bu'r Adran Iau yn gweithio'n galed yn codi arian ar gyfer Elusen Ysbyty Plant Noah's Ark trwy gael eu noddi i redeg o amgylch yr Ysgol nifer o weithiau. Roedd yn ffordd hwyliog a iachus i godi llawer o arian ar gyfer achos pwysig iawn.



Cyfrinach Noswyl Nadolig
Diolch yn fawr iawn i Eurgain Haf am ddod i gyflwyno ei llyfr 'Cyfrinach Noswyl Nadolig' i ni ac i rannu'r wers bwysig iawn - sef i fod yn garedig i bawb, o bob cefndir a hil.

Coeden Capel PSN
Aeth y Cyngor Ysgol i Gapel Pont-Siôn-Norton ar ddechrau mis Rhagfyr i addurno'r goeden Nadolig tu allan i'r capel - roedd yn edrych yn wych!

Ysgol Gynradd Dolau

Martyn Geraint
Daeth Martyn Geraint atom i berfformio 'Panto Nadolig' i ddosbarthiadau Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a 2 yr adran Gymraeg ar ddydd Mawrth 14eg o Ragfyr. Cawsom lawer o hwyl a sbri a digon o ganu a chwerthin. Diolch o waelod calon i Martyn am ei frwdfrydedd a'i egni, yn dod ag ysbryd y Nadolig i'r ysgol yn ystod y cyfnod yma sy'n dal i fod yn gythryblus yng nghanol gofidiau COVID-19.

Gwobr Platinwm Eco

Mae'r Cyngor Eco wastad yn eithriadol o brysur yn gweithio tuag at adnewyddu'r wobr platinwm. Diolch i'w holl gwaith diflino, cafodd ein hysgol y newyddion gwych ein bod wedi llwyddo i adnewyddu'r wobr llynedd. Mae'r Cyngor Eco nawr ar waith i geisio sicrhau safonau'r ysgol ar gyfer 2021-22, gyda'r bwriad a'r gobaith o allu adnewyddu unwaith eto!

25 Mlynedd ar y Top!
Mae ein hysgol wedi bod yn lwcus iawn o gael arweinyddiaeth Mr Gareth Evans fel pennaeth am gryn dipyn o amser nawr. Ar ddydd Gwener, 7fed o Ionawr, dathlodd Mr Evans 25 o flynyddoedd fel pennaeth ein hysgol. Yn ystod ei amser, mae wedi bod yn gyfrifol am sicrhau adnoddau newydd a chyffrous tu fewn a thu allan i'r ysgol, yn ogystal â chynnal safonau uchel yr addysg sydd wedi cael ei ddarparu i blant Llanharan a'r cymunedau cyfagos. Mae Mr. Evans wedi bod yn falch iawn o lwyddiannau'r timau chwaraeon dros y blynyddoedd ac wedi mwynhau gweld wynebau'r rhieni wrth iddynt fwynhau sioeau cerdd amrywiol yr ysgol, yn cynnwys Joseff a'i Got Amryliw, Bugsy Malone, Y Dewin o Wlad Oz, Oliver! a Peter Pan. Mae Mr. Evans wedi torri tir newydd yn cynnal ei rôl fel pennaeth am 25 o flynyddoedd ac rydyn ni - athrawon, plant, rhieni, llywodraethwyr a chymuned yr ysgol - yn falch iawn o'i lwyddiant ac yn

ddiolchgar iawn am ei arweiniad clodwiw dros y blynyddoedd. Diolch yn fawr Mr. Evans a diolch yn fawr i'w deulu, sydd wedi'i gefnogi ar ei daith ac wedi derbyn y penwythnosau a gollwyd i'r Urdd, teithiau antur a chwaraeon, dros y blynyddoedd.

Raffl y Cyngor Lles
Bu'r Cyngor Lles yn brysur cyn y Nadolig yn paratoi raffl i bawb fod yn rhan ohono. Aeth y cyngor allan i brynu eitemau i roi mewn basgedi, a pharatowyd un fasged ar gyfer Cyfnod Allweddol 2, un ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, ac un ar gyfer yr athrawon. Nid oedd gofyn i unrhyw un brynu tocyn ar gyfer y raffl arbennig yma gan mai raffl am ddim ydoedd. Llongyfarchiadau i'r rhai a fu'n llwyddiannus a phob lwc i bawb yn y dyfodol!

Cyn-feithrin
Rydyn ni'n hynod o gyffrous i gael croesawu'r ddarpariaeth cyn-feithrin i'n hysgol ar ôl hanner tymor mis Chwefror. Fe fydd y cwmni Gofal Plant Flourish Cymru yn cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y boreau a dwyieithog yn y prynhawniau. Mae'r ystafell ddosbarth newydd sbon bron wedi'i orffen ac yn

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
prosserh@btinternet.com

Colli John Hunt
Trist iawn yw gorfod cofnodi bod un o gefnogwyr Tafod Elái yn Nhonyrefail, John Hunt, wedi ein gadael.

Bu farw John yn dawel yn ei gartref ddydd Sadwrn yr 11eg o Ragfyr, 2021. Roedd John yn gymeriad ac wrth ei fodd gyda chwaraeon, yn enwedig criced. Bu'n chwarae ac yn gwylio yn frwd a chymaint felly fel iddo fynd i Awstralia i ddilyn Cyfres y Lludw ym 1995.

Chwaraeodd gerddoriaeth ran fawr yn ei fywyd hefyd. Roedd yn aelod brwdfrydig a ffyddlon o Gymdeithas Gorawl Pontypridd. Roedd e'n arddwr egniol ac yn ddipyn o gogydd hefyd. Ac roedd hefyd yn aelod ffyddlon o'r dosbarth Cymraeg a gynhaliwyd blynyddoedd yn ôl yng Nghlwb y Glowyr.

Hoffai fynd ar wyliau i lefydd cynnes ac o ganlyniad i hyn roedd diddordeb mawr ganddo mewn dysgu ieithoedd eraill, heblaw am y Gymraeg.

Yn y blynyddoedd olaf, yn enwedig pan oedd e'n byw gyda dementia, cafodd John ofal cariadus iawn gan ei wraig Myfanwy. Rydyn ni'n meddwl am y teulu yn eu galar.

barod i gael ei lenwi gyda chelfi a phlant brwdfrydig. Os yr hoffech mwy o wybodaeth, i holi cwestiynau, neu i wneud cais am le, cysylltwch â Gofal Plant Flourish Cymru ar eu tudalen Facebook neu trwy gysylltu ar 07411463925.

Ymweliad Nadoligaidd
Daeth y corrach bach hapus yma i ymweld â'r dosbarthiadau i gyd yn ystod yr wythnos cyn gwyliau'r Nadolig. Roedd hi'n braf iawn gweld gwen ar wynebau'r plant i gyd ac yn hyfryd gallu cyfrannu tuag at gyffro'r ŵyl trwy groesawu'r un bach drygionus yma i'n dosbarthiadau.

Bethlehem, Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon (am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):
[Noder: Bydd yr Ysgol Sul yn cwrdd yn y Festri]
Mis Chwefror 2022:
6 Chwefror - Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
13 Chwefror – Oedfa dan ofal y Parchedig Denzil John
20 Chwefror – Oedfa dan ofal y Parchedig Robin Samuel
27 Chwefror – Oedfa dan ofal y Parchedig Glyn Tudwal Jones
Mis Mawrth 2022:
6 Mawrth – Oedfa Gŵyl Dewi
13 Mawrth – Oedfa dan ofal Rhys ab Owen
20 Mawrth – Oedfa dan ofal y Parchedig Robert Owen Griffiths
27Mawrth – Oedfa dan ofal y Parchedig Aled Edwards

---oooOOOooo---

Pan oedd y mwyafrif ohonom yn paratoi i eistedd i lawr i fwynhau ein cinio Nadolig - wedi i ni dynnu'r cracyrs a gwisgo'n het bapur, a rhannu'r jocs sâl - gan obeithio bod y twrci a'r trimins yn barod, a'r pwdin plwm yn cael ei ail-dwymo - yn Kourou, Guyane Ffrengig, ar arfordir gogledd-ddwyrain De America, 'roedd yna rhywbeth o ddiddordeb mawr ar fin digwydd.

O borthladd gofod yr Asiantaeth Ofod Ewropeaidd (AOE), ar ben roced enfawr Ariane 5, am 12:20 p.m. ein hamser ni, fe lawnsiwyd Telesgop Gofod James Webb [a enwyd ar ol James Edwin Webb, Americanwr, a oedd yn ail weinyddwr NASA rhwng 1961 ac 1968].

Prosiect ar y cyd rhwng NASA, yr AOE, ac Asiantaeth Ofod Canada ydi'r fenter, ond fe gostiodd $10 biliwn o ddoleri, ymhell dros yr amcangyfrif gwreiddiol, a bu flynyddoedd yn hwyrach na'r disgwyl (bu'r cynllun ar waith am gyfnod o dros ugain mlynedd), ond, ar ddydd Nadolig, fe'i hanfonwyd ar ei daith hanesyddol i edrych yn ôl mewn amser ar enedigaeth (Clec Fawr) y bydysawd.

Wedi 27 munud, wrth i ni glirio'n platiau, ac i'r rhai mwy barus ohonom gael mymryn yn ychwaneg o'r tatws rhost a grefi, fe ryddhawyd y telesgop, yn ei blyg, o drwyn y roced, gan ei wahodd i hedfan ar ei liwt ei hun, ar gyflymdra o 21,000 milltir yr awr, i bellter o filiwn o filltiroedd o'r ddaear. Yno mewn man a elwir yn L2 (Lagrange Point 2) y bydd yn treulio gweddill ei oes, gan amgylchynu'r haul mewn cytgord ag effeithiau disgyrchiant y ddaear.



Rhan gyntaf y dasg oedd hon wrth gwrs, oherwydd dros y pythefnos ddilynol byddai'n rhaid i'r telesgop, fesul cam gofalus, agor o'i blygiadau origami a ffurfio'n un blodyn hardd yn y gofod (maint cwrt tenis o hyd a 3 llawr o uchter) - ac fe lwyddwyd i wneud hynny yn ddilyffethair.

Mae'r telesgop, yn dilyn y gwaith a wnaed gan ei ragflaenydd, Hubble, a'r dasg o "weld" (yn y sbectrwm is-goch [infra-red]) y sêr a'r galaethau cyntaf a ffurfiwyd o niwl y nwyon, pan oedd y bydysawd tua 200 miliwn o flynyddoedd oed, yn dilyn y Glec Fawr rhyw 13.8 biliwn o flynyddoedd yn ol.

Bydd, yng ngeiriau Cyfarwyddwr NASA, yn "*darganfod rhyfeddodau na allem hyd yn oed eu dychmygu*".

Bydd rhaid disgwyl am gyfnod o rhyw 6 mis cyn i'r telesgop ddechrau ar ei waith.

Amcangyfrifir mai rhwng 5 a 10 mlynedd fydd oes y telesgop yma.

Rydym i gyd yn gyfarwydd a hanes y creu yn y Beibl, ond diddorol ydi sylwi bod yna wahaniaeth sylfaenol yn adnod gyntaf y Beibl [Genesis 1:1] yng ngwahanol fersiynnau o'r Beibl:-

"Yn y dechreuad y creodd Duw y *nefoedd* a'r ddaear" [Beibl William Morgan argraffiad 1955 a'r Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig 2004]

"Ar y dechrau cyntaf, dyma Duw yn creu y *bydysawd* a'r ddaear" [Beibl.net]

A'r "nefoedd" mwyach wedi ei newid i "fydysawd", a'r telesgop am ddarganfod y golau cynharaf erioed, a ydi tymor Duw fel creawdwr ar ddirwyn i ben tybed?

Yn 1978 cyhoeddwyd rhifyn dwbl arbennig o "Y Gwyddonydd" [Cyfrol 16 Rhifyn 2/3 Mehefin /Medi 1978] ar thema "Y Creu".

Un a fu'n aelod ym Methlehem, Gwaelod-y-garth, y diweddar Athro Glyn O Phillips, oedd Golygydd "Y Gwyddonydd", er i'r rhifyn arbennig yma gael ei olygu gan R.Gareth Wyn Jones a John Ll.W. Williams.

Mae 14 o bennodau yn y rhifyn, a'r un olaf yw un dan y pennawd "Bioleg, Diwylliant a Chrefydd", gan David Wynn Parry, darllenydd yn Ysgol Llysieueg Bangor bryd hynny.

"*Y mae'r cread yn llawer iawn hŷn nag ydyw bywyd ac y mae bywyd yn llawer iawn hŷn nag ydyw dyn*."

"*Beth bynnag a fernir am y cread a'i esblygiad, ei aur pen llanw ydyw dyn – ef ydyw uchafbwynt yr holl gread a'i gynnyrch pennaf*."

"*Perthyn i ddyn agweddau moesol ac esthetig – gall wahaniaethu rhwng da a drwg, Daeth dyn yn ymwybodol o'r sanctaidd, gall grefydda a sychedu am y tragwyddol ac awchu am y goruwchnaturiol*."

"*Oherwydd hunanymwybyddiaeth dyn, rhoddwyd dimensiwn arbennig i ofn … fel rhan o esblygiad dyn, daeth marwolaeth yn realiti, ond oherwydd datblygiad y gallu i fod yn ymwybodol, gyda'i ddychymyg, ei allu delweddol, athronyddol a meddyliol, daeth dyn yn berchen ar syniadau a fu'n gyfrwng i'w ddyrchafu ymhell tu draw i'w dynged naturiol a biolegol. Canlyniad hyn oedd i ddyn ddyfod i gredu fod bodolaeth yn rhan o ryw arfaeth neu gynllun oedd i fythol barhau …a bu i grefydd wneud ei rhan*."

Ac yna, yn drawiadol:-

"*Daeth trai ar grefydd draddodiadol – yr oedd crefydd i raddau yn ymgais i orchfygu llawer o ofnau a bygythion y dyn cynnar. Bellach daeth y canllawiau traddodiadol yn llai angenrheidiol…[er] gellir dadlau fod angen rhyw ddimensiwn crefyddol, rhyw gred, rhyw obaith i fywyd o hyd i roddi pwrpas ac ystyr i fodolaeth*."

A'r paragraff clo:-

"Ymddengys y bydd galw cyn bo hir ar i'r ddynoliaeth wneud penderfyniadau tyngedfennol ynglyn a'i dyfodol. Tybed ai yr unig ganllawiau ar ein cyfer fydd y canllawiau gwyddonol a biolegol, annigonol fel ag y maent, lawer ohonynt? Neu a welwn ni agweddau ar ein crefydd draddodiadol yn esblygu i gydredeg a'r canllawiau hynny, a rhoddi i'r ddynoliaeth yr hyder a'r gobaith uchaf fel y bo i'r hil ddynol a'r cread fyned rhagddynt i gyrraedd eu gwynfyd?"

Roedd yn Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2022 rhwng y 18 a'r 25 o Ionawr, a thema'r wythnos oedd "*Gwelsom ei seren ef ar ei chyfodiad*" (Mathew 2:2). Diddorol nodi mai brawddeg gyntaf y myfyrdod agoriadol oedd "*Yn y byd bregus ac ansicr hwn, rydym yn chwilio am oleuni*."

Tybed a fydd Telesgop Gofod James Webb o gymorth?

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Brysia Wella
Dymunwn wellhad buan i John Edmunds, Penywaun sydd yn treulio cyfnod yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn Llantrisant. Brysia wella, John.

Cydymdeimlo
Estynnwn ein cydymdeimlad i Alun a Heulwen Rees a'r teulu yn Heol Iscoed ar golli mam Alun, ddiwrnod cyn y Nadolig. Cynhaliwyd angladd Mrs Margaret Rees yng Nghapel Noddfa, Garnswllt, ddydd Mawrth, Ionawr 11eg.

Ffair y Pentref
Cynhaliwyd Ffair yn Neuadd y Pentref ac yng Nghanolfan y Tabernacl nos Sul, Rhagfyr 12fed. Roedd yna stondinau'n gwerthu amrywiaeth dda o nwyddau yn y Neuadd a'r ganolfan. Roedd stondin pitsas Nia ac Andrew Gittins yng nghornel y maes parcio yn boblogaidd iawn. Daeth Côr Ysgol Gymraeg Garth Olwg a Chôr Godre'r garth i ddiddanu'r dyrfa. Roedd mor braf i glywed Carolau'n cael eu canu ar ôl cyfnod clo llynedd. Codwyd bron i fil o bunnau i gronfa atgyweirio'r Neuadd.

Calendr Efail Isaf


Cynhyrchwyd calendr gyda lluniau o olygfeydd hyfryd o'r pentref eleni eto. Derbyniwyd tua chant o luniau a thasg anferth Mark Orchard, a oedd yn arfer byw yn Efail Isaf, oedd eu didoli a'u beirniadu. Enillydd y wobr i blant cynradd a'r brif wobr am y llun gorau Elis Roberts. Elliw Porter oedd enillydd yr Adran i blant Uwchradd, a Nia Gittins oedd enillydd Adran yr Oedolion. Llongyfarchiadau i bawb a fu'n ddigon ffodus i gael eu lluniau yn y calendr.

Y TABERNACL
Dathlu'r Nadolig
Bu'n gyfnod prysur iawn yn Y Tabernacl cyn y Nadolig. Perfformiwyd Drama'r Geni gan blant Yr Ysgol Sul ar fore Sul, Rhagfyr 12fed. Roedd yn braf gweld yr angylion, bugeiliaid, doethion a Mair a Joseff, wrth gwrs, yn llenwi'r llwyfan gyda brwdfrydedd heintus. Mi wnaeth Edwyn Evans, Cadeirydd y Bwrdd, ddiolch o galon i'r athrawon am hyfforddi'r plant, i'r rhieni am eu cefnogaeth ond yn bennaf i'r plant am eu perfformiadau hyfryd.

Tro'r Twmiaid oedd hi fore Sul, Rhagfyr 19eg a chawsom gyflwyniad graenus ac ambell i gerdd a chân gan y bobol ifanc. Mae'r Twmiaid yn ffodus iawn o gael eu tywys gan berson mor frwdfrydig ac ysbrydoledig ag Eleri Mai, y Swyddog Ieuenctid. Bu aelodau'r Twmiaid yn brysur dros yr wythnosau'n arwain i fyny at y Nadolig. Syniad arbennig oedd cynllunio calendr Adfent rhithiol gyda neges bwrpasol yn ddyddiol gan un o'r aelodau ar dudalen Facebook y capel i annog pawb i fod yn garedig.

Her arall a osodwyd i aelodau'r Twmiaid oedd creu llusernau er mwyn gorymdeithio drwy'r pentref nos Sul, Rhagfyr 12fed yn dilyn Ffair y Neuadd.

Gan nad oedd yn bosibl cynnal y Gwasanaeth Noswyl Nadolig fel arfer yn y capel fe ymgasglodd nifer dda o garolwyr gerllaw Neuadd y Pentref yn gynnar yn y nos i gynnal Gwasanaeth byr a chanu carolau.

Cydymdeimlad
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant gydag Ann Dwynwen ac Emlyn Davies a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth yn dilyn marwolaeth brawd Ann, ddechrau Ionawr.

Bu farw Vera Gammon, Heol Iscoed ddechrau Ionawr. Roedd Vera'n fawr ei pharch fel arbenigwr meddygol yn yr Ysbytai lleol. Roedd yn gerddor da a hi oedd yr Organydd yn yr Oedfaon Saesneg fore Sul. Roedd hefyd yn arlunydd dawnus. Estynnwn ein cydymdeimlad i aelodau'r teulu ac i'r ffrindiau.

Colli Penri Jones
Ar drothwy'r Nadolig daeth y newyddion trist am farwolaeth Penri Jones yn Ysbyty Bryn Beryl, Pwllheli. Roedd yn awdur dawnus, yn gyn-athro ac yn gynghorydd brwd. Ond sgwn i faint o aelodau presennol Y Tabernacl sy'n gwybod fod Penri wedi bod yn weithgar iawn yn yr eglwys yn saithdegau'r ganrif ddiwethaf. Bu'n ysgrifennydd yr eglwys am gyfnod a bu'n weithgar iawn ymhob achos Cymraeg a Chymreig yn yr ardal. Estynnwn ein cydymdeimlad i Mair, ei briod, ac Esyllt ac Iolo a'r wyrion.

Dymuniadau Da
Mae aelodau'r Tabernacl am ddymuno'n dda i Carol Williams sydd heb fod yn rhy hwylus yn ddiweddar.

Diolch
Diolch o galon Elaine James ac Audrey Lewis am eu gwaith yn paratoi ar gyfer y Bwrdd Cymun yn fisol. Mae'r ddwy wedi penderfynu rhoi'r gorau i'r dyletswydd ac wedi trosglwyddo'r awenau i Rhian Eyres, Carys Davies ac Eirian Rowlands.

Dementia a'r iaith Gymraeg

Mae Cynllun Gweithredu Dementia 2018 -2022 yn cydnabod yr angen clinigol ar gyfer siaradwyr Cymraeg sy'n byw gyda dementia dderbyn gofal a chymorth yn eu dewis iaith. Wrth i'w cyflwr ddatblygu, efallai y bydd cyfathrebu'n fwy heriol i bobl â dementia.

Yn ddiweddar dyfarnwyd cytundeb gan Lywodraeth Cymru i Ganolfan Cynllunio Iaith Cymru a Phrifysgol Bangor i gasglu gwybodaeth am yr asesiadau dementia sydd ar gael yn y Gymraeg a'u defnydd ar draws Cymru.

Cynhaliwyd weminar ym mis Ionawr gyda siaradwyr yn rhannu eu harbenigedd a'u profiadau o'r Gymraeg a dementia. Roedd rhain yn cynnwys Kathryn Jones, Rheolwr Gyfarwyddwr IAITH: Canolfan Cynllunio Iaith Cymru, Beti George, cyn-ofalwr ei phartner ac ymgyrchydd, Huw Owen, Swyddog Polisi Cymdeithas Alzheimer Cymru, a'r Ymchwilwyr Hanna Thomas, Conor Martin, Angharad Higgins a Catrin Hedd - Jones.

"Mae iaith a diwylliant yn gorgyffwrdd yn fawr, gyda goblygiadau posibl i lesiant pobl â dementia (PWD) sy'n derbyn gofal yn eu 'hail' iaith neu ddiwylliant."

Mae CADR yn awyddus i gefnogi'r ymchwil hwn i sicrhau bod pobl hŷn yng Nghymru yn cael gofal yn eu dewis iaith.

Dywedodd Gill Windle, Cyfarwyddwr Cyswllt CADR ac Athro Ymchwil Heneiddio a Dementia ym Mhrifysgol Bangor, ''Mae'n ofynnol i Iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yng Nghymru ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal yn Gymraeg drwy'r 'Cynnig Rhagweithiol'. Mae darparu'r agwedd hanfodol hon ar ddarparu gofal yn hanfodol i alluogi cyfathrebu effeithiol a chefnogi pobl sy'n byw gyda dementia yng Nghymru i fyw cystal â phosibl."

Nod CADR yw gwella bywydau pobl hŷn drwy ymchwil, polisi ac ymarfer ac fe'i cefnogir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Bwrdd y Cyfarwyddwyr
Etholwyd Gwion Evans a Rhian Eyres yn aelodau newydd o Fwrdd Cyfarwyddwyr y Tabernacl.

Trefn yr Oedfaon ar gyfer mis Chwefror
Chwefror 6ed Y Parchedig Dyfrig Rees ac Eirian Rees
Chwefror 13eg Y Parchedig Aled Edwards ac Wyn Rees
Chwefror 20fed Edwyn Evans a Sylvia Davies
Chwefror 27ain Geraint Wyn Davies a Nia Williams

Ysgol Llantrisant

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau gwresog i Mr a Mrs Euros a Lauren Jones ar enedigaeth eu merch fach, Elin Nia, ddiwedd mis Tachwedd.

Ymweliad ag Eglwys Bethel
Cafodd plant Blwddyn 2 hwyl wrth ymweld ag Eglwys Bethel ym Mhontyclun i ddysgu am stori'r Nadolig. Fe wnaethon nhw adrodd ac actio'r stori a hefyd creu cardiau Nadolig.

Partïon Nadolig
Hyfryd oedd gallu bod yn yr ysgol ar ddiwedd y tymor er mwyn dathlu'r Nadolig. Dyma luniau o bartïon y dosbarthiadau.

Recordio Fideos Nadolig
Braf iawn oedd cael y cyfle i ymweld ag Eglwys Dewi Sant ym Meisgyn er mwyn recordio ein fideos Nadolig eleni. Diolch o galon i staff a aelodau'r eglwys am eu croeso cynnes.

Ymddeoliad Hapus

Ymddeoliad hapus i Mrs Tania Evans sydd wedi bod yn rhan o deulu Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth am dros 26 mlynedd. Mae'r ysgol wedi gwerthfawrogi ei doniau arbennig a byddant yn ei cholli hi yn fawr.

Sgwrs Dan y Lloer

Huw Llywelyn Davies fu'n holi Elin Fflur mewn noson arbennig o Glwb y Dwrlyn ddechrau mis Rhagfyr. Dim ond unwaith o'r blaen oedd Huw wedi cwrdd ag Elin a hynny ar raglen Heno yng Nghlwb Rygbi Pentyrch ar noson gêm rhyngwladol. Ac er na fu cyfle iddynt gwrdd cyn noson y darllediad ar Zoom i aelodau Clwb y Dwrlyn roedd y ddau yn edrych ac yn sgwrsio yn gartrefol iawn, un yn y gogledd a'r llall yn y de.

Cawsom glywed gan Elin am ei magwraeth a sut y daeth yn un o sêr y byd pop Cymraeg ac am ei datblygiad i fod yn ddarlledwraig profiadol. Cawsom gân arbennig ganddi ac ymateb didwyll a chynnes i'r holi treiddgar.

Diolch i Elin a Huw am noson fydd yn aros yn hir yn y cof. Mae Elin yn cefnogi Hosbis Dewi Sant ac mae Clwb y Dwrlyn wedi cyfrannu at yr achos da.

Blwyddyn Newydd Dda
Cafodd plant y Cyfnod Sylfaen hwyl wrth ddathlu traddodiadau'r flwyddyn newydd. Bu'r plant yn brysur yn creu calennig a chanu "Blwyddyn Newydd Dda" yn ogystal â dysgu am y Fari Lwyd.

Gaeaf Llawn Lles

Wrth i Gymru ddechrau gwella ar ôl effaith gymdeithasol, emosiynol a chorfforol y pandemig, mae lles plant a phobl ifanc yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth. Nod menter Gaeaf llawn Lles Llywodraeth Cymru yw cefnogi llesiant cymdeithasol, emosiynol a chorfforol ein plant a phobl ifanc 0-25 oed. Bydd y fenter Gaeaf llawn Lles yn annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol a chorfforol y tu allan i ddysgu ffurfiol. Hefyd, gyda gweithgareddau am ddim ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar draws Cymru gyfan, mae rhywbeth addas i bawb.

Yn dilyn cais llwyddiannus am arian gan Lywodraeth Cymru fel rhan o Fenter Gaeaf Llawn Lles, mae Menter Iaith Rhondda Cynon Taf yn cynnal gweithgareddau wedi'u hanelu at deuluoedd, plant a phobl ifanc dros fisoedd y Gaeaf. Hyfryd oedd cael croesawu teuluoedd y sir i Lolfa Goffi Yr Hen Lyfrgell Porth am Stori gyda Mrs Corn gyda charolau, crefftau, siocled poeth a mins peis ar ddechrau mis Rhagfyr. Roedd cyfle hefyd i'r plant wneud crefftau gyda'r corachod yn ein gweithdai crefftau Nadolig. Roedd bwriad i ni gynnal digwyddiad i ddathlu'r flwyddyn newydd ar ddechrau mis Ionawr ond oherwydd cyfyngiadau Covid, rhannwyd pecyn llawn gweithgareddau yn ddigidol yn lle gyda chyfle i ddysgu mwy am hen arferion a gwneud eich Calennig a Mari Lwyd bach eich hun yn y tŷ. Gallwch chi lawrlwytho'r pecyn yma - www.menteriaith.cymru/dathlur-flwyddyn-newydd

Gweithdy Crefftau Nadolig

Bydd mwy o ddigwyddiadau yn digwydd yn ystod mis Chwefror a Mawrth felly dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol am y newyddion diweddaraf neu am ragor o fanylion, cysylltwch â gweithgareddau@menteriaith.cymru

Stori gyda Mrs Corn

Prosiect Medrau yn parhau i ddathlu sgiliau'r gymuned, diolch i arian y Loteri Genedlaethol

Mae Prosiect Medrau y Fenter yn parhau i ddatblygu a dathlu sgiliau ein cymuned, diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, ac yn galluogi pobl o bob oedran i rannu sgiliau defnyddiol a diddordebau personol gydag eraill.

Mae Menter Iaith Rhondda Cynon Taf wedi derbyn arian gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol er mwyn gallu datblygu'r prosiect digidol ymhellach a chynnig gweithgareddau byw i'r gymuned. Dechreuwyd y prosiect yma'n ddigidol fel ymateb i'r pandemig. Bydd yr arian yn ein galluogi i ddod â phobl at ei gilydd unwaith eto, i ddysgu oddi wrth ei gilydd wyneb yn wyneb. Rydym yn edrych ymlaen at allu cynnig rhaglen o weithgareddau dros y flwyddyn nesaf.

I ddarganfod mwy am ymgeisio am grant gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i gefnogi eich cymuned, ewch i www.cronfagymunedolylg.org.uk/cymru

Gwybodaeth bellach: marged@menteriaith.cymru

Am fwy o fanylion am Prosiect Medrau, ewch i: www.facebook.com/groups/prosiectmedrau

Dydd Santes Dwynwen

Dysgwch fwy am hanes Santes Dwynwen a mwynhewch y gweithgareddau ym Mhecyn Gweithgareddau Mentrau Iaith Cymru a Menter Iaith Rhondda Cynon Taf. Ar gael i'w lawrlwytho yma: www.menteriaith.cymru/dydd-santes-dwynwen

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol: Dawn Walters

Ar 4ydd Ionawr bu farw Teifion Griffiths yn 83 mlwydd oed. Ganwyd Teifion yn Evanstown, Gilfach Goch ond yn ddeg oed symudodd gyda'i deulu i Lundain. Roedd ei dad a'i fam yn rhedeg siop lyfrau "Griffs" ger Charing's Cross ac yn rhan o gymdeithas Gymraeg y ddinas. Aeth Teifion i Brifysgol Aberystwyth ac ar ôl cyfnod yn dysgu yn Lloegr penodwyd yn Brifathro Ysgol Teilo Sant, Caerdydd, am 19 mlynedd.

Roedd yn falch iawn o'i wreiddiau yn y cwm ac yn 2019 cafodd y fraint o ddadurchuddio plac yn Stryd Kenry ar y tŷ lle magwyd y teulu.

Roedd Teifion yn parhau i gasglu a gwerthu llyfrau ail-law ac yn aelod ffyddlon o Gôr Godre'r Garth.

Cydymdeimlwn â'i wraig Julia a'r teulu.

Gellir gwneud rhodd i Calon Hearts er cof am Teifion drwy - www.justgiving.com/fundraising/teifiongriffiths

Bydd Dydd Miwsig Cymru yn digwydd ar 4 Chwefror 2022

P'un a ydych chi'n hoffi miwsig indi, roc, pync, ffync, gwerin, electronica, hip hop neu unrhyw beth arall, mae miwsig anhygoel yn cael ei greu yn y Gymraeg i chi ei ddarganfod. Mae'r diwrnod yn dathlu pob math o fiwsig Cymraeg.

Bydd Dydd Miwsig Cymru 2022 yn talu teyrnged i'r lleoliadau miwsig annibynnol – sy'n aml yn ganolog i gymunedau Cymraeg – sydd wedi bod yn gartref i ddegawdau o gigs Cymraeg ac 'atgofion miwsig'.

I ddathlu Dydd Miwsig Cymru, mae'r trefnwyr yn gofyn i ffans miwsig rannu eu hatgofion bythgofiadwy o gigs Cymraeg mewn lleoliadau hen a newydd: cwrdd â phartner, gwneud ffrind bore oes, neu gig a sbardunodd rywun i ddysgu Cymraeg.

Oes gyda chi unrhyw atgofion o gigs Cymraeg yn y sir? Anfonwch nhw at gweithgareddau@menteriaith.cymru neu rhannwch eich atgofion ar y cyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio #AtgofionMiwsig a chofiwch tagio ni yn eich neges.

Dilynwch ni!
Facebook: @MenterRhCT
Twitter: @MenterIaithRhCT
Instagram: @menteriaithrhct

Ysgol Creigiau

YMWELIAD Â RHANDIROEDD CREIGIAU
Roedd llawer o gyffro yn yr ysgol yn ddiweddar gan fod disgyblion Dosbarth 1 a Class 1 yn ymweld â Rhandiroedd Creigiau. Mwynheuodd y disgyblion y profiad yn fawr ac roedd ganddynt lawer i drafod ar ôl dychwelyd i'r ysgol. Bu'r plant yn edrych ar wahanol blanhigion oedd yn tyfu yn y rhandir a hefyd yn helpu rhai o'r garddwyr i blannu hadau ac i ofalu am eu plot. Garddwyr gwych blantos! Diolch o galon am y croeso cynnes gan y garddwyr.

Dosbarth 1 yn mwynhau yn Rhandiroedd Creigiau

SWYDDOG DIOGELWCH Y FFORDD
Mae Aled Forster, Swyddog Diogelwch Ffyrdd o Gyngor Caerdydd, wedi bod yn ymweld â'r ysgol yn gyson i ddarparu hyfforddiant Cerddwyr Craff i ddisgyblion Blwyddyn 6. Diolch Aled am yr hyfforddiant pwysig yma.

Dosbarth 6 yn derbyn Hyfforddiant Cerddwyr Craff

Dosbarth 6 yn barod i fynd allan ar y ffordd fawr

HYFFORDDIANT KERBCRAFT

Cyn y Nadolig cafodd disgyblion Dosbarth 2 a Class 2 bedair sesiwn o hyfforddiant Kerbcraft. Strategaeth genedlaethol yw Kerbcraft a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n dysgu disgyblion Blwyddyn 2 sut i fod yn gerddwyr mwy diogel. Roedd pob un wedi mwynhau ac wedi dysgu sut i wneud y penderfyniadau cywir er mwyn cadw eu hunain yn ddiogel wrth groesi'r ffordd.

ENILLWYR CYSTADLEUAETH MAINT CYMRU
Rhai wythnosau cyn y Nadolig, cymerodd disgyblion Blwyddyn 5 ran mewn gweithdy Maint Cymru am Newid Hinsawdd. Yn ystod y gweithdy gwahoddwyd ysgolion ledled Cymru i gyflwyno eu

Enillwyr Cystadleuaeth Maint Cymru o Ddosbarth 5

syniadau ar gyfer e-gerdyn Nadolig. Ar ddechrau mis Rhagfyr ymwelodd Laura o Maint Cymru â Dosbarth 5 i gyhoeddi'r enillwyr. Llongyfarchiadau i Betrys am ennill y gystadleuaeth ac i Wil, Lea ac Evie a ddaeth yn ail. Gwaith ardderchog Dosbarth 5!

HYFFORDDIANT CYMORTH CYNTAF
Y tymor hwn bu disgyblion Blwyddyn 6 yn ffodus iawn i gael Hyfforddiant Cymorth Cyntaf. Dysgon nhw lawer o sgiliau pwysig iawn.

Dosbarth 6 yn derbyn hyfforddiant Cymorth Cyntaf

SESIYNAU IAITH ARWYDDO
Yn ddiweddar cafodd Disgyblion Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 gyfle i gymryd rhan mewn sesiynau iaith arwyddo. Roedd pob un wedi dysgu sgiliau newydd ac wedi mwynhau'r profiadau'n fawr.

Dosbarth 5 yn mwynhau Sesiwn Iaith Arwyddo

LLYSGENNAD IFANC FELINDRE

Mae Nel, Dosbarth 3, yn Lysgennad Ifanc Felindre eleni (er cof am ei thadcu) ac mae hi wedi codi dros £200 ers yr haf drwy drefnu bore coffi a rhedeg 2K pob dydd am bythefnos. Cafodd hi ei gwobrwyo am ei hymdrechion mewn seremoni yn ddiweddar a chafodd gyfle hefyd i gwrdd â Sam Warburton. Gwych Nel - rydym yn falch iawn ohonot.

MENTER FUSNES DOSBARTH 2
Fel rhan o'u gwaith cyd-destun y tymor diwethaf, Gwlad! Gwlad!, bu dysgwyr Dosbarth 2 yn edrych ar ddeunyddiau Cymreig. Buont yn dysgu am lechi a'u defnydd. Yna aethant ati i addurno llechi er mwyn eu gwerthu i'w teuluoedd. Buont yn trafod costau ac fe benderfynon nhw ar bris ac ar fargen i'w teuluoedd. Diolch i'r teuluoedd am gefnogi'r fenter ac am ddod i'r siop. Da iawn am eich sgiliau mentergarwch ac am greu cynnyrch hyfryd, Dosbarth 2.

IESTYN MEWN DU A GWYN

Sai'n Trio Bod yn *funny!*

I fod yn blwmp ac yn blaen, gwnaeth y sin gomedi ddiflannu yn llwyr am ddwy flynedd. O'n i mewn gig comedi ym mis Awst llynedd (2021) yn gwylio'r holl gomediwyr yn strugglo gan eu bod wedi anghofio eu setiau a'i jôcs. Mae diffyg dweud y pethau 'ma sy'n cynnal bywoliaeth comedïwr yn achosi iddo fe a'r cof ohono ddirywio. A hynny hefyd yn wir ar ein gallu i ysgrifennu defnydd newydd.

Maen nhw'n dweud "write what you know" ond does dim lot i ddweud am eistedd adref am ddwy flynedd. Y peth olaf mae rhywun eisiau clywed stori amdano mewn gig yw Covid. Maen nhw'n dod i gigs er mwyn anghofio am y pethau yma sy'n eu poeni mewn bywyd. Mae'r arf yma wedi cael ei gymryd oddi wrthym yn llwyr. Dyw hyn felly ddim yn fuddiol i'r cyhoedd, cynulleidfaoedd na'r perfformwyr, yn enwedig ar ôl dod i arfer gyda chyfrwng mor hwylus â chomedi. Roedd yn rhan mor bwysig o fwynhad yn ein bywyd. Mae'r sefyllfa yn drist.

Anodd iawn yn gwneud comedi heb gynulleidfa gan fod rhyngweithio rhyngbersonol yn brif sail i'r perfformiad. Mae'n fater o "Hit and Miss" Trio a methu er mwyn gallu ffurfio setiau sy'n gweithio. Anodd iawn yw cymryd ymatebion oddi wrth unigolion yn rhithiol. Methu clywed chwerthin na chymeradwyo na bwio!

Dwi'n ymwybodol o lawer o brosiectau mae'r Llywodraeth wedi ariannu yn sgìl ail -danio'r celfyddydau o ganlyniad i Covid. Er hyn, faint sydd yn ymwneud á chomedi? Sai'n rhy siŵr! Dwi'n cymryd nad yw Comedi yn gyfrwng sydd yn neidio i'r cof mor amlwg - yn enwedig Comedi Cymraeg. Sector mor fach o gomediwyr - ond pwysig dros ben.

Roedd pryder bod artistiaid Cymraeg mewn sawl cyfrwng celfyddydol yn dechrau neidio'r ffens i berfformio yn Saesneg ac mae'r amgylchiadau ond yn mynd i annog hynny yn fwy. Allai ddim ond gobeithio am sefyllfa lle bydd pobl yn gyfforddus i ddod 'nôl i wylio gigs a bod y Llywodraeth yn cofio amdanom ni. Dim ond bryd hynny gall comedi Cymraeg yng Nghymru ail-dyfu ac ehangu eto fel y gwelsom cyn y cyfnod clo.

Iestyn Jones

Menter Fusnes Dosbarth 2
Ysgol Creigiau

Curo'r Corona'n Coginio

Eluned Davies-Scott

Bywiogi dyddiau gaeafol

Mae orennau Seville wedi gwneud eu hymddangosiad blynyddol yn ein siopau unwaith eto a tybed faint ohonoch sydd, fel fi, wedi mynd trwy'r ddefod flynyddol o wneud marmalêd?

Prydain yw'r farchnad fwyaf ar gyfer y ffrwythau persawrus hyn, sydd â thymor byr o ddiwedd Rhagfyr hyd ddiwedd Chwefror.

Os nag oes amser gennych i'w defnyddio ar hyn o bryd maent yn rhewi yn llwyddiannus. Mae Yottam Ottolenghi yn ffan mawr o'u defnyddio ar hyd y flwyddyn. Lapiwch bob ffrwyth cyfan heb ei blicio mewn haenen lynnu (cling film) a'u rhoi mewn bagiau rhewgell a'u rhewi nes bod angen.

Mwriaid Mwslimaidd ddaeth â'r orennau i dde Sbaen yn wreiddiol. Roeddent yn gwerthfawrogi'r croen hynod aromatig a'r sudd miniog am eu priodweddau bywiog ac iachusol - roeddynt yn malu'r croen yn bast a'i fwyta ar ôl pryd o fwyd i'w helpu i dreulio. Argymhellwyd y sudd chwerw i 'ddal gwres dicter yn ôl a lliniaru'r syched'.

Ni ddaeth orennau melys yn gyffredin hyd y 15fed ganrif pan ddechreuon nhw gael eu mewnforio o Bortiwgal a Tsieina. Orennau Seville ddefnyddiwyd mewn rysetiau hyd at y 19eg ganrif. Nid yw orennau melys yn rhoi dyfnder a blas unigryw i seigiau melys a sawrus fel mae'r croen aromatig a sudd miniog y Sevilles yn ei gynnig.

Orennau Seville a ysbrydolodd y gwaith o greu'r gwirodydd enwog Cointreau a Grand Marnier wrth gwrs.

Adeg yma o'r flwyddyn hefyd mae orennau gwaed ar gael hefyd. Mae'r orennau hyn wedi cael eu tyfu yn ardal de Môr y Canoldir ers y 18fed ganrif. Mae'r cnawd yn datblygu ei liw marwn nodweddiadol pan fydd y ffrwyth yn cael ei dyfu mewn lleoliadau cynnes sydd â thymheredd isel yn ystod y nos. Mae un math ohonynt yn tyfu mewn ardal sydd â microhinsawdd unigryw o amgylch Mynydd Etna yn Sisili. Mae'r pridd folcanig cyfoethog a'r hinsawdd arbennig yn yr ardal hon yn gwneud y ffrwyth i "gochi" gyda'r pigment anthocyanin, a hefyd yn helpu i wneud y ffrwyth yn fwy melys. Dyma'r math gorau o ran lliw a blas ond mae mathau eraill yn cael eu tyfu yn Califfornia a Texas.

Mae'r pigmentau hyn hefyd yn llawn gwrthocsidyddion sydd, ynghyd â chynnwys fitamin C uchel, yn rhoi buddion iechyd i'r orennau. Ynghyd â'u lliw coch hyfryd, mae blas orennau gwaed yn ymylu at flas mafon. Gallwch eu defnyddio mewn dresin salad vinaigrette sy'n dda gyda ffenigl neu fetys a hefyd gyda chawsiau meddal fel caws gafr a Perl Las. Ychwanegwch y sudd ac ychydig o'r croen wedi'i gratio i panna cota, neu yn lle lemwn mewn rysetiau ar gyfer pwdinau, cacenni a bisgedi. Gellir eu defnyddio mewn saws gyda physgod olewog, porc, cyw iâr, hwyaden a chig helwriaeth. Gellir eu defnyddio hefyd, gydag orennau Seville, i wneud marmalêd - a allai fod yn syniad ar gyfer y swp nesaf o marmaled y byddaf yn ei wneud!

Orennau gwaed gyda hwyaden (Rysait Nigel Slater) ac mewn salad gyda betys (uchod)

O DAN YR WYNEB

Martin Huws sy'n holi Annes Elwy, un o sêr y ffilm arswyd *Gwledd*, gafodd ei hysbrydoli gan Y Mabinogion, am ferch sy'n dychwelyd adre o dan amgylchiadau rhyfedd.
Mae'r ffilm wedi ei ddangos mewn gwyliau ffilmiau rhyngwladol.

Beth yw eich gwaith?
Actores.

Pa waith arall ydych chi'n wneud neu wedi bod yn ei wneud?
Yn ystod y cyfnodau clo mi ddechreuais i gwmni bwyd Y Bwrdd - roedd o'n hobi gen i cyn Covid, cynnal nosweithi swpera bob hyn a hyn rhwng swyddi actio. Ond ro'n i'n lwcus iawn bod pobl wedi cysylltu a gofyn am wahanol wasanaethau gen i (bocs brecwast i ben-blwydd ffrind ac ati) a felly mi ddechreuais i fusnes go iawn, yn addasu efo'r rheolau newydd. Bocsys brecwast ddaeth gynta, wedyn bocsys picnic yn yr haf, nosweithi bistro bob hyn a hyn, ac wedyn unwaith i'r cyfyngiadau lacio, mi ddechreuais i neud lot o 'private catering' ar gyfer penblwyddi, partïon plu a phartïon gardd.

O ble rydych chi'n dod?
O Benarth. Mae mam o Lanfyllin a Dad o Abertawe.

Lle rydych chi'n byw yn awr?
Yn Nhrelluest (Grangetown).

Wnaethoch chi fwynhau eich addysg?
Do! Gollais i ryw saith mlynedd o ysgol efo ME (erbyn hyn, dwi'n holliach, diolch byth) ond mi o'n i dal yn mwynhau fy amser i yn yr ysgol ac wrth fy modd yn y Coleg Cerdd a Drama yng Nghaerdydd.

Pwy oedd a phwy yw'r dylanwadau mwya arnoch chi?
W, dwi'm yn siwr! Dwi 'di sôn o'r blaen, a mae o bendant yn wir, na fyswn i 'di dewis bod yn actores tase Mrs Lowri Cynan a Mrs Grey ddim 'di ymuno â'r ysgol adeg TGAU.

Pa rannau ydych chi wedi eu hactio o'r blaen?
Yn eu mysg mae Beth yn *Little Women*, Mia Owen yn *Craith/Hidden*, Cadi yn y ffilm *Gwledd*, a Jen/Yen yn y ddrama lwyfan *Yen*. Dwi ar hyn o bryd yn ffilmio cyfres newydd i Channel Four ac S4C.

Sut brofiad oedd actio yn *Gwledd*?
Un o fy hoff brofiadau erioed! Cast a chriw bach efo rhai o fy hoff bobl yn y byd, rhan anhygoel, a lleoliad hyfryd!

Beth oedd apêl y sgript?
Do'n i rioed 'di darllen rhwbeth tebyg ac, yn sicr, roedd hi am dorri tir newydd yn y Gymraeg. Mae hi'n falch o'i hunaniaeth ac yn gadarn ynddi. A mae hi'n hollol wallgo.

Pa fath o gymeriad yw Cadi yn y ffilm?
Cymeriad tawel, llawn teimlad, sy'n

rhyfeddu at y byd. Ma' hi fel cwningen fach yn y wlad.

Ydych chi'n hoffi ffilmiau arswyd?
Dwi'n hoffi bod ffilmiau arswyd, er eich bod chi'n gwbod bo' nhw'n ffug, yn gallu gneud i chi deimlo cymaint o ofn a'ch gadael chi'n teimlo mor anghyfforddus. Os ydych chi'n lwcus, anaml chi'n teimlo cymaint â hynny o ofn mewn bywyd go iawn. Mae o jest yn 'cool,' er ein bod ni'n meddwl bo' ni fel bodau dynol yn soffistigedig a chlyfar a mewn rheolaeth, y gwir ydi ni dal i gael ein twyllo mor hawdd a mae'n meddyliau ni mor eiddil ac ifanc ag erioed.

Pwy yw eich hoff actor? Pam?
Meryl Streep, mae hi'n anhygoel! Ac ers *Succession*, dwi'n obsesd efo Kieran Culkin a Nicholas Braun.

Pa gyngor fyddech chi'n rhoi i actor?
Os ydach chi dal yn yr ysgol, ymunwch â National Youth Theatre of Wales/Theatr Genedlaethol Ieuenctid Cymru - cwrs preswyl dros yr haf lle rydach chi'n datblygu a mynd ar daith efo sioe theatr o amgylch Cymru. Mi wnes i ffrindiau gorau fy mywyd i yna a mi o'n i'n dwlu ar bob eiliad. Mae'n rhoi syniad i chi o goleg drama achos mae'n gwrs dwys, naw y bore hyd naw yr hwyr, yn union fel coleg.

Wedyn 'swn i'n awgrymu coleg drama. Mae'n anodd cael eich derbyn, tua 2000 o geisiadau am 20 o lefydd, ond mae'n werth trio am gwpl o flynyddoedd os oes rhaid achos mae'n helpu'r siwrne ar yr ochr arall, sydd yn anoddach fyth!

A wedyn ar ôl coleg, jest cariwch mlaen. Falle bydd angen ffeindio swyddi eraill dros dro – mae hwnna'n oce. Jest dewiswch rwle lle mae'r bobl yn neis a lle 'dach chi'n llwyddo i fwynhau bob dydd. Mi o'n i'n casáu gweithio mewn siop hetiau Chanel ond yn dwlu ar fod yn 'waitress' mewn bwyty Israeli. A jest gnewch be' 'dach chi'n gallu i gadw'r ffydd tra bod pobl mewn swyddi arferol yn trio'ch perswadio chi i ddewis gyrfa wahanol. Baswn i 'di ffeindio'r holl beth lot anoddach heb ffrindiau coleg sydd ar yr un siwrne droellog.

Beth oedd y cyngor gorau gawsoch chi?
I gymryd amser cyn dechre unrhyw olygfa jest i edrych ar y person arall, a ffeindio tempo anadlu eich cymeriad chi.

Pa un yw eich hoff ffilm a rhaglen deledu?
Fy hoff ffilm i ydi *Victoria* gan Sebastian Schipper. A fy hoff raglen deledu i ydi *Below Deck* (ma'n sothach ond dwi'n 'addicted' a dwi'n dwlu ar sothach).

Beth sy'n apelio fwya, ffilm, teledu, neu theatr? Pam?
Mewn byd delfrydol 'swn i'n gneud pob un, un ar ôl y llall am byth. Dwi'n dwlu ar neud ffilm. Mae'r stori'n gyflawn, mae'n gynhyrchiad creadigol iawn i bawb ar y set a dwi'n hoffi'r teimlad yna, bod pawb yn 'commited'.

Dio ddim run fath efo teledu. Mewn cyfres chwe rhan, newch chi ond derbyn sgriptiau pennod 4-6 hanner ffordd drwy ffilmio, weithie efo sgwenwyr newydd ar bob pennod a weithie cyfarwyddwyr hefyd. Does dim yr un teimlad, bo' chi i gyd wedi'ch trochi yn y broses efo'ch gilydd.

Ond wedi deud hynny, dwi'n dwlu ar neud teledu achos bod hi'n broses gymaint hirach. 'Dach chi'n dod i neud ffrindiau gwych a mae'n gyffrous neud teledu achos bod o gymaint fwy o fewn gafael y cyhoedd na ffilm neu theatr. Yn aml, os oes rhaglen deledu yn cydio, mae'n teimlo fel bo' pawb 'dach chi'n nabod yn eistedd lawr yr un pryd yn eu cartrefi gwahanol i wylio, fel *Succession*, er enghraifft, a wedyn yn ei thrafod hi yn y gwaith bore wedyn. Mae teledu yn fwy cymunedol.

A wedyn theatr, wrth gwrs, sy'n rhoi'r wefr fwya. Yn y theatr 'dach chi'n gneud eich actio gorau achos mae mis o ymarferion a chwarae cyn i unrhywun eich gweld chi'n perfformio. Dwi'n dwlu ar theatr a wir yn gobeithio ga i neud sioe theatr arall yn 2022.

Disgrifiwch eich hoff bryd bwyd
Dwi'n dwlu ar gymaint o fwydydd gwahanol, ac yn bwyta bwyd 'Middle Eastern' gan amlaf, ond un o fy hoff fath o brydau ydi bwyd Ffrengig - bwyd cyfoethog llawn menyn a nionod - cig wedi ei goginio'n araf drwy'r dydd efo tatws stwnsh moethus, a wedyn caws a menyn a baguette.
Neu buffet brecwast mewn gwesty neis. Croissants, jam cartref, wyau o'r ardd ayyb ayyb! Hwnna fysa fy 'desert island meal,' dwi'n meddwl.

Beth yw eich hoff weithgareddau amser hamdden?
Coginio, cerdded, a mynd allan am fwyd. Dwi 'di dechre gneud brodwaith felly dwi'n neud hwnna os dwi 'di bod yn edrych ar y teledu neu fy ffôn gormod. Ond dwi hefyd yn hapus iawn jest efo fy nheulu a'n ffrindie yn gneud dim byd!

Yr actorion eraill yn y ffilm yw Nia Roberts, Julian Lewis Jones, Steffan Cennydd, Sion Alun Davies, Lisa Palfrey a Rhodri Meilir. Y cyfarwyddwr yw Lee Haven Jones a'r awdur a'r cynhyrchydd yw Roger Williams.

Rhagflas o'r ffilm: https://deadline.com/video/the-feast-first-clip-from-sxsw-midnighters-selection/

Holi Osian Rowlands Menter Iaith Rhonda Cynon Taf

Sut mae'r ddau fis cyntaf wedi mynd?
Mae wedi bod yn braf iawn cael dod i adnabod aelodau'r staff sy'n gweithio yn y swyddfa - tîm bach ond gweithgar a chroesawgar iawn, ac mae eu brwdfrydedd at eu gwaith yn arbennig. Mae cefnogaeth aelodau'r Pwyllgor hefyd yn amhrisiadwy.
Dwi wedi cael dechrau cwrdd â phobl o amryw sefydliadau yn ddigidol, ond dwi wir yn edrych ymlaen at gael cwrdd â phobl go iawn, o ymweld ag ysgolion Cymraeg ac ail iaith y Sir i fudiadau a grwpiau cymunedol.

Pa fath o ddigwyddiadau a gweithgareddau y gallwn ni eu disgwyl yng Nghwm Cynon / Cwm Rhondda / Taf Eláí yn ystod y tair blynedd nesaf?
Dwi'n mawr obeithio gellir cynnal Parti Ponty yr haf yma, ac er mor wych yw gallu cynnal digwyddiadau mawr yn flynyddol, mae na llawer mwy o waith i'w wneud o fewn ein cymunedau, yn enwedig o ystyried rôl y Mentrau tuag at y targed o Filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Dwi'n gobeithio gallu cynnig rhaglen o weithgareddau i ysgolion Cymraeg ac ail-iaith a fydd yn cynnig y cyfle i bawb i glywed a defnyddio'r iaith tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae'n bwysig cofio hefyd nad menter i'r bobl ifanc yn unig ydym ni ac felly byddwn yn ehangu ar ein darpariaeth o gyfleoedd i oedolion ddefyddio'r iaith o fewn y Sir.

Beth yw blaenoriaethau'r Fenter dros y tair blynedd nesaf?
Ar ôl cyfnod digon anodd ac heriol, ein prif flaenoriaeth fydd sicrhau parhad yr hyn sydd yn bodoli gyda ni yn barod ond wrth gwrs, mae'n gyfle cyffrous iawn i adeiladu ac ehangu. Fy ngobaith i yw ein bod ni fel Menter yn gallu cefnogi a chyd-weithio gyda Mudiadau sy'n gwneud gwaith gwych yn barod, yn ogystal ag ychwanegu at yr arlwy.

Dwi'n gobeithio gallu cyd-weithio gyda'r Mentrau sydd ar ein stepen drws ni, ac wrth gwrs, gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yn dod i'r Sir yn 2024 - mae na gyfle arbennig gyda ni yma i wneud gwaith pwysig iawn i godi ymwybyddiaeth yn ogystal â datblygu cyfleoedd i gynyddu'r profiadau i bobl o bob oedran a chefndir i gael clywed a defnyddio'r Gymraeg.

Yn broffesiynol, soniwch am ddau beth sydd wedi bod yn achos balchder arbennig i chi (cyn ymuno â'r Fenter yn iawn)
Y prosiect dwi mwyaf balch ohoni yw Cyw a'r Gerddorfa, prosiect wnes i gynhyrchu yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018 ar y cyd a chwmni teledu Boom. Syniad wnaeth ddod a fy mywyd cartref a fy ngwaith gyda Cherddorfa a Chorws Genedlaethol Gymreig y BBC ynghyd, ac roedd cael enwebiad BAFTA Cymru am y rhaglen Adloniant gorau i blant yn arbennig iawn. Dwi'n mawr obeithio – ar ôl gorfod gohirio dwywaith – bydd Cyw a'r Gerddorfa 2 yn digwydd eleni (un o'r pethau roedd rhaid i fi adael i fynd i ymuno â'r Fenter!).

Mae'r ail beth yn rhywbeth nath ddechrau fel hobi, a bellach wedi troi yn fwy proffesiynol. Pan ddaeth Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i Gaerffili yn 2015, penderfynais sefydlu côr o deulu a ffrindiau o'r byd cerddorol er mwyn codi arian. Dros y blynyddoedd, mae hwn wedi datblygu o gyngherddau bach yn y dref i berfformiadau rhyngwladol fel yn Abu Dhabi gyda Syr Bryn Terfel ac amryw o recordiadau gan gynnwys Offeren Sant Ioan - Bach gydag Elin Manahan Thomas, recordio gyda Cerys Matthews, a thraciau sain fel y film Pride a Robin Robin (Netflix). Ar ôl dwy flynedd o beidio cyd-ganu, dwi methu aros i ni ail-ddechrau cwrdd!

Eich hoff le yng Nghymru a pham.
Mae'n anodd curo mynd am dro o gwmpas Castell Caerffili pa bynnag dymor yw hi (a'r hwyl mae'r plant a fi'n ei gael o weld Fflur yn osgoi'r adar – mae hi wir eu hofn nhw!), ond mae na un lle ry'n ni wrth ein bodd yn dianc iddo, sef Llangrannog (ardal enedigol Fflur). Y traeth, y Ship neu'r Pentref, y caffi hufen ia, pizza o Tafell a Tân, Gŵyl Nol a Mlan – a dim signal ffon!!!

Eich hoff fwydydd
Dwi'n hoffi bwyd (lot!) ac yn ffodus fy mod i'n hoffi bach o bopeth!
Cwrs cyntaf – Croquettes hwyaden
Prif Gwrs - un o fyrgyrs gwych Ansh – Barti Ddu (www.ansh.cymru)
Pwdin – ma Fflur yn gwneud Banoffee Pie cartref arbennig – ac wrth gwrs ma hwn yn cyfri tuag at un o fy '5 y dydd'!
Byse angen gwin coch i helpu i olchi'r cyfan i lawr wrth gwrs!

Eich hoff ffilm neu lyfr a pham
Ffilm – James Bond – mae'r gwahoddiad i gymeryd drosodd gan Daniel Craig yn y post yn ôl y sôn ...

Llyfr – dwi ddim yn darllen digon, ond dwi'n mwynhau darllen hunangofiannau sêr chwaraeon (rygbi yn bennaf) a digrifwyr gan fod eu hanes nhw yn aml mor ddiddorol, ac yn agoriad llygaid o ran y gwaith caled mae'n nhw wedi gorfod ei wneud i gyrraedd ble mae'n nhw.

Y dyddie ma, dwi'n darllen mwy o lyfrau plant i fod yn onest o Tric a Chlic a Dona Direidi i storïau doniol David Walliams!

Oes yna unrhyw lun sy'n arbennig bwysig i chi, ac os felly pam
Dyma'r llun o'r pedwar ohonon ni yn cyrraedd adref o'r ysbyty ar ôl genedigaeth Betsan – ar ddiwrnod gêm Chwe Gwlad rhwng Cymru a'r Alban (Dewi a fi wedi paratoi ar gyfer gwylio'r gêm rhag ofn...!).

Creu Poster



Llongyfarchiadau mawr i Kelly Hanney, Penygraig, Y Rhondda, am ennill cystadleuaeth dylunio gyda Chymdeithas Eisteddfodau Cymru yn ystod mis Tachwedd. Y dasg oedd "Creu poster i ddarlunio unrhyw gân neu gerdd Gymraeg". Yr ysbrydoliaeth tu ôl i'r poster buddugol oedd "Gwinllan a Roddwyd", gan Saunders Lewis; ac wrth ddyfarnu'r wobr gyntaf i Kelly, dywedodd y beirniad (Garmon Gruffudd, Y Lolfa) bod y poster yn cyfleu ysbryd cenedlaethol y gwaith i'r dim. Ategodd ei fod e'n "boster hardd, cywrain sy'n dangos ôl meddwl a chynllunio gyda'r testun a'r map blodau o Gymru yn cydblethu yn wych. Mae'n boster fyddai yn harddi unrhyw wal."

Y wobr oedd copi personol o'r poster wedi'i argraffu a'i fframio. Dwi'n siwr bydd hwn yn cael lle arbennig ar wal cartref Kelly!

Llongyfarchiadau eto.

Ysgol Llanhari

Bu deufis olaf 2021 yn gyfnod hynod gynhyrchiol a llwyddiannus i rai o ddisgyblion hŷn yr ysgol wrth iddynt brofi cryn lwyddiant yn talyrna. Llongyfarchiadau mawr i Celyn, Dyfan, Hedd a Lena ar fuddugoliaeth nodedig yng nghystadleuaeth genedlaethol Talwrn yr Ifanc ac yn ogystal i ddisgyblion bl12 a 13 sy'n astudio Cymraeg, Ela, Maisie, Beth, Lowri, Celyn a Dyfan ar gipio'r wobr gyntaf yn Nhalwrn Glanllyn, gan guro disgyblion eraill ledled Cymru sy'n astudio Cymraeg Safon Uwch. Mae gennym gyw beirdd talentog iawn yn Llanhari a diolch i Miss Catrin Rowlands a Miss Beca Creamer o Adran y Gymraeg am eu hysbrydoli a'u hannog. Dyma rywfaint o'r hanes gan Celyn a Dyfan a rhai o'r cerddi buddugol.

Talwrn yr Ifanc 2021 – Celyn, Dyfan, Hedd, Lena gan Celyn Harry blwyddyn 13

Bu tipyn o farddoni eleni ymhlith disgyblion hŷn Ysgol Llanhari. Cystadlodd y disgyblion dawnus yng nghystadleuaeth Talwrn yr Ifanc 2021, a gafodd ei ddarlledu ar Radio Cymru. Yn erbyn Ysgol Syr Huw oedd Ysgol Llanhari yn y rownd gyntaf, lle'r oedd rhaid i'r ddau grŵp weithio ar amryw o dasgau gan gynnwys: gorffen limrig â'r llinell gyntaf 'Mae'n anodd ofnadwy esbonio', triban yn cynnwys enw aderyn, parodi o gân â'r thema 'ar goll' a thelyneg â'r testun 'Cawod'. Y bardd Grug Muse oedd mentor y criw, wrth eu harwain drwy'r tasgau. Ar ôl cyfnod o waith caled yn paratoi ar gyfer y rownd gyntaf, cipiodd tîm Ysgol Llanhari'r wobr aur.

Aeth y disgyblion buddugol ymlaen i'r rownd derfynol a chystadlwyd yn erbyn Ysgol Bro Pedr ac Ysgol Preseli. Roedd eto angen iddynt baratoi cyfres o dasgau newydd o flaen llaw er mwyn adrodd yn y gystadleuaeth. Un o'r tasgau oedd gorffen limrig a ddechreuodd gyda 'Eleni yng ngwaelod fy hosan/Yng ngwaelod fy hosan eleni', ac fe sgoriodd tîm Ysgol Llanhari sgôr uchel o 9/10. Tasg arall oedd rhaid cwblhau oedd triban ar y testun 'Anrheg'. Cyflwynodd y tri thîm dribannau cryf ac felly fe wobrwyodd y beirniaid y timau i gyd gyda hanner marciau. Ynghyd â'r tasgau hyn, roedd rhaid i'r grŵp greu parodi o garol neu gân Nadolig ac fe ddewison nhw'r gân adnabyddus 'Nadolig Llawen i chi gyd'. Cân lwyddiannus, llawn hiwmor oedd hi a chawsant eu gwobrwyo amdani gyda sgôr arbennig o 9.5/10. Y dasg olaf oedd creu telyneg ar y teitl 'Rhew', lle penderfynodd y tîm i farddoni wrth drafod y byd wedi rhewi fel canlyniad o Gofid 19. Roedd y beirniaid yn hoff iawn o'r syniadau a'r delweddau creadigol ac felly fe wobrwywyd tîm Ysgol Llanhari gyda sgôr gwych o 10/10. Wedi i'r beirniaid gyfrifo'r sgorau i gyd, enillodd tîm Ysgol Bro Pedr 37 o farciau, Ysgol Preseli 37.5 o farciau, ac Ysgol Llanhari oedd yn fuddugol gyda 38 o farciau. Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion talentog ar enill Talwrn yr Ifanc 2021. Mae rowndiau Talwrn yr Ifanc 2021 i gyd i'w weld ar wefan 'AMAM Cymru'.

Limrig – Eleni yng ngwaelod fy hosan/Yng ngwaelod fy hosan eleni

Eleni yng ngwaelod fy hosan,
Roedd twll a hwnna'n un aflan
Y cynnwys ar lawr
Fawr ddim drudfawr
A nawr, wna i ddim byd ond conan!

Triban – Anrheg
Daeth gofid i'n gwahanu,
Doedd dim llinyn yn clymu/Ansicrwydd yn byrlymu,
Ond eleni down ynghyd
Bodlon fy myd 'da'r teulu.

Telyneg gan griw y Talwrn
Rhew
Y trydydd ar hugain o Fawrth,
Datganiad du: 'Arhoswch adre'
oerfel Boris yn crisialu'r wlad dan flanced rew.

Dim ysgol, dim cymdeithasu, dim normalrwydd.
Ac mewn byd o dawelwch, dim gobaith
i drechu'r gelyn yn y rhyfel di-ddyn.

Drysau cau a'r byd wedi'i rewi.
Dicter. Dim dihangfa, dim datrysiad.

Cyrchwyd arf - pibonen finiog i dorri'n rhydd o'r hunllef hwn...
Ond heddiw,
â'r arf rhynllyd yn diosg ambell risial obeithiol -
Graddol feirioli wna'r flanced drom.

Cystadleuaeth y Talwrn yng Nglan-llyn gan Dyfan Krieger

Ym mis Tachwedd 2021, fe wnaeth disgyblion lefel A Cymraeg ymweld â Gwersyll yr Urdd yng Nglan-llyn, ble'r oedd yr Urdd, mewn partneriaeth gyda darlithwyr Prifysgol Bangor, wedi trefnu amrywiaeth o weithgareddau i gynorthwyo gyda gwaith y disgyblion. Un o weithgareddau mwyaf cyffrous y daith oedd cystadleuaeth Y Talwrn, oedd yn gweld y disgyblion yn cystadlu yn erbyn ysgolion hyd a lled Cymru, am y fraint o gael eu cydnabod fel enillwyr Talwrn y Beirdd Glan-llyn 2021.

A dyna'n union beth lwyddodd disgyblion Llanhari i wneud, gan ddod yn gydradd gyntaf gydag Ysgol Gyfun Gŵyr, ar ôl cystadlu'n ffyrnig mewn nifer o dasgau heriol. Roedd rhaid i'r disgyblion creu parodi o gerdd Gymraeg, gyda'r tîm o Lanhari yn dewis 'Etifeddiaeth' gan Gerallt Lloyd Owen, a'i throi'n 'Gofidiaeth', cerdd yn sôn am helynt y pandemig. Telyneg ar y testun 'crwydro' oedd tasg arall y Talwrn, gyda'r disgyblion yn dewis trafod 'agoraffobia', sef yr ofn o adael amgylcheddau cyfforddus, sy'n broblem a amlygwyd yn glir gan y pandemig. Yn olaf, roedd rhaid i'r disgyblion creu neu addasu cân Gymraeg ar y testun 'dysgu ar-lein', ac fe ddefnyddiwyd y gân 'Goleuadau Llundain' yn effeithiol tu hwnt yn y dasg hon i drafod y testun dan sylw.

Bu'r Talwrn yn llwyddiant enfawr i ddisgyblion lefel A Cymraeg Llanhari, ac rydym yn gobeithio'n fawr y bydd disgyblion yn dychwelyd i Wersyll yr Urdd yng Nglan-llyn yn 2022 i amddiffyn eu teitl fel buddugwyr Talwrn Glan-llyn.

Ysgol Llanhari
(Parhad)

Crwydro gan Celyn Harry
Byw gydag agoraffobia (yr ofn o adael y tŷ)

Wyt ti ofn agor y drws? Wyt ti?
Welaist di mo'r haul mawr melyn yn ei grandrwydd y tu hwnt i'r pelydryn bach hwnnw dasga ar sil dy ffenest?

Chlywaist di mo'r adar yn trydar
na chwyrnu blin y can mil o olwynion
ar eu hynt wyllt wallgo ar waelod dy ardd?

Theimlaist di mo frathiad Sioni Rhew ar dy foch
Na choflaid gynnes ym mynwes dy famgu?

Flasaist di mo' halen hallt heli'r môr
Na'r finegr yn gic yn dy geg cegaid wrth gegaid o'r pecyn papur yn yr awyr iach?

Phrofaist di 'mo arogl persawr neb yn y parti
Na'r biniau gorlawn drennydd eu llenwi?

Agora dy ddrws, cama', blasa', arogla', teimla' dy fywyd...mae e yno,
yn aros…
Agora…
Chwala'r ffobia.

Gofidiaeth gan Dyfan Krieger

Cawsom Gofid… i'w gadw,
Yn Gorona go gachlyd
ein bod am orfod ildio byw.

Cawsom wŷs o genhedlaeth
i genhedlaeth, i beidio anadlu
anadl neb ond ni ein hunain.

A chawsom ynysu, er na ddymunem fod yn ynysig,
oherwydd ein rhyddid oedd yng ngofal Bois y Bae
a'u grym anniddig ar ein bywydau.

Troesom ein tai yn sinemau Zoom
a nosweithiau cwis a phoptai bara banana
lle nad oedd llawenydd.
Troesom ein neiniau a'n teidiau
Yn *whizz kids* heb ofn ipad, iffôn nac i-watch;
robotiaid o henwyr doeth
ar dro'r trai.
A throesom 'aros adre'
yn 'normal newydd' i ni.

Ystyriwch; a oes dihareb
a ddwed y gwirionedd hwn:
Gwerth Gofid oedd gwerth oedi
a'n hedd yw ein dyfodol ni.

Cymdeithas Edward Llwyd
Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

Cymdeithas Edward Llwyd

Blodau'r Flwyddyn Newydd
gan Rob Evans

Dw i'n sylweddoli dyw pob papur bro ddim yn cyhoeddi ym mis Ionawr felly i ddarllenwyr y rhai yna mae'n rhaid dweud yn gyflym beth oedd yn fy erthygl.

Roedd Goronwy Wyn, Llywydd Cymdeithas Edward Llwyd, wedi gosod her i ni yn y cyfarfod rhithiol ym mis Hydref. Yr her oedd i ni fynd allan i gefn gwlad yn ystod chwe niwrnod cyntaf mis Ionawr a nodi'r blodau oedden ni'n gweld, nid gweddillion blodau chwaith ond blodau yn eu harddwch. A rŵan dach chi'n deall digon i fynd ymlaen i ddarllen erthygl mis Chwefror.

Ar y cyntaf o fis Ionawr 2022 roedd hi'n ddiwrnod digon sych i ddechrau fy ngwaith ymchwil i ba blanhigion bydda i'n gweld yn blodeuo yn y chwe niwrnod cyntaf o'r flwyddyn. Gan roeddwn i braidd yn brysur efo gormod o bethau eraill penderfynais fynd bob yn ail diwrnod a hefyd cadw'r gwaith ymchwil tu fewn i ffiniau Gŵyr. Yn yr wythnosau yn arwain at y flwyddyn newydd roeddwn i wedi treulio amser yn mynd trwy Llyfr Natur Iolo ac roedd y profiad yn dweud wrthyf am beidio disgwyl gormod - dim ond rhestr o 11 oeddwn i'n gallu creu. Ond roeddwn i'n sicr o gael un.

Anelais am Benmaen a pharcio mewn lle tu ôl i'r eglwys. Cyn i mi adael y car roedd y planhigyn gyntaf ar fy rhestr - yr eithin. Diolch byth am yr eithin! Cerddais i fyny ochr Cefn Bryn a chofiais aros i edmygu'r olygfa tu ôl i mi llawer gwaith, islaw roedd bae'r Tri Chlogwyn, y bae sydd wedi cael ei gyfrif fel un o'r harddaf yn y byd. Dw i mor ffodus mod i'n gallu mwynhau'r olygfa unrhyw amser trwy'r flwyddyn. Cyrraedd y pen a chroesi'r ffordd i edmygu moryd yr afon Llwchwr ar ochr ogleddol Penrhyn Gŵyr. Yn fy mhen mae llun o ddŵr yn byrlymu trwy greigiau calchfaen yn agos at Gastell Carreg Cennen a dyma'r un dŵr wedi cyrraedd y môr. A diolch i un o deithiau Cymdeithas Edward Llwyd am y darlun yna. Mae'n rhaid dweud fy mod wedi cael pleser ar y daith ac wedi mwynhau bod allan yn yr awyr iach ond er hynny, dim ond yr eithin oedd ar fy rhestr. Mae'n rhaid gwneud yn well y tro nesaf.

A dyma fi ar yr ail ddiwrnod ac yn crafu fy mhen ond gan fod i wedi cyfyngu fy hun i Benrhyn Gŵyr gwaeth i mi heb ddilyn fy nhrwyn yn y gobaith y byddaf yn cael syniadau. Heibio Penmaen mae lle i barcio ond a oes lle i mi? Oedd mi oedd lle i un bach ond wrth droi i mewn sylweddolais fod cyflwr y wyneb yn ofnadwy, tyllau mawr ym mhob man felly dod allan yn ofalus oedd y peth callach. Troi i fynd trwy Reynaldston wedyn ac roedd y lle parcio ar y pen yn llawn hefyd felly mynd ymlaen heibio Broad Pool. Ar ddiwrnod sych mae'n bosib parcio ar ochr y ffordd ond roedd gormod o bobl wedi trio yn barod. Ymlaen at Lanrhidian a dilyn y ffordd isel wrth ochr y morfa heli. Welais rywle i barcio a dechreuais gerdded ar hyd y trac, fy llygaid yn sganio'r ddwy ochr, digon o bethau lliwgar i'w weld ond nid blodau oedden nhw. Roedd hi'n mynd yn fwy mwdlyd ac yn y pendraw, gan fod dim byd i'w gweld es i'n ôl yn ofalus at y car. Y lle nesaf oedd Penclawdd a digon o le i barcio. Mae gwaith wedi cael ei wneud ar y morglawdd yn ddiweddar ac roedd blodau wedi cael eu plannu a dyma flodyn cyntaf y diwrnod - Melyn yr Ŷd. Cerdded wrth ochr y morfa wedyn a gweld tipyn o liw yn y pellter - llygad y dydd.

Ar y trydydd diwrnod y cynllun oedd cerdded o Southgate hyd at y clogwyn uwch ben Bae'r Tri Chlogwyn, parcio'r car ac ar y ffordd i gael tocyn roeddwn i'n sicr mod i wedi clywed teulu yn siarad Cymraeg. Ar y ffordd yn ôl es i'n agosach atyn nhw ac ia, mi oedden nhw'n siarad Cymraeg. Roedd rhaid cael sgwrs, Nain a Taid yn byw yn Abertawe a'r rhieni a'u plant yn byw yng Nghaerdydd - pob un yn siarad Cymraeg. Hyfryd!

Ac ymlaen at y daith olaf ond roedden ni wedi cael ormod o law yn ddiweddar a'r llwybrau'n fwdlyd dros ben ac i wneud pethau'n waeth roedd wyneb y llwybrau wedi dirywio'n ofnadwy. Dim ond yr eithin oedd i'w weld ond, arhoswch! Dyma ddant y llew dewr iawn yn sefyll yn syth yn erbyn y gwynt oer, roedd o mewn blodau ond yn gyndyn i ddangos ei hun yn ei holl ysblander.

A dyna ni. Mae'n rhaid i mi ddweud nad ydw i'n gweld dim bai ar y planhigion i beidio mentro tu allan a doedd dim pryfed i'w gweld yn chwilio am baill. Llond law oedd i'w gweld a gallwch chi ddweud dim ond yr eithin oedd yr un go iawn achos ffliwc oedd y lleill efallai. Dw i'n clywed chi'n gofyn y cwestiwn "A oedd pwynt i hyn i gyd?" Cwestiwn da, a'r ateb yw "Oedd!" Dyn ni'n dysgu dim wrth gymryd pethau'n ganiataol. Mae'n rhaid i ni ofyn cwestiynau ac mae'n rhaid i ni chwilio am atebion, dyna sut dyn ni'n dysgu.

A hefyd, ar ôl i ni gael dwy flynedd o gyfyngiadau dyn ni gyd wedi dod i arfer â pheidio mynd allan ac mae peryg na fydden ni'n mentro gymaint ar ôl i'r cyfnod ofnadwy yma ddod i ben. Mae'n dda cael rheswm.

A gawn ni obeithio bydd normalrwydd yn dychwelyd yn 2022?
Gobeithio wir!

Ysgol Evan James

Hwyl fawr Mrs Williams
Yng nghanol mis Ionawr fe adawodd Mrs Karyn Williams, clerc yr ysgol ar ôl gweithio yma am nifer o flynyddoedd. Hoffem ddiolch yn fawr iddi am ei gwaith a'i chwmni a dymuno'n dda iddi yn y dyfodol. Gobeithio y doi yn ôl i'n gweld yn aml.

Croesawu staff newydd
Hoffem estyn croeso cynnes i ddau aelod o staff newydd fydd yn gweithio yn swyddfa'r ysgol. Mae gennym ddau glerc newydd. Mae Miss Plummer a Mrs Phillips wedi ymgartrefu'n wych.

Enillydd Cystadleuaeth Carden Nadolig
Llongyfarchiadau mawr i Evelyn Johnson o Ddosbarth Tom Jones am ennill cystadleuaeth carden Nadolig Cyngor Pontypridd. Daeth Carl Thomas, Maer Pontypridd i gyflwyno'r wobr iddi. Da iawn wir.

Menter Caerdydd

Mis bach ond prysur i'r Mentrau!
Mae'r mis bach yn un prysur i ni ym Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg wrth i ni droi ein sylw at weithgareddau gwyliau hanner tymor.

Prysurdeb y Nadolig
Buodd y Senedd yn brysur iawn cyn y Nadolig yn sicrhau eu bod yn helpu eraill. Casglwyd llawer iawn o fwyd a'i ddosbarthu i Fanc Bwyd Pontypridd. Yn ogystal, codwyd £212 i'r elusen "Help for Heroes". Diolch i holl blant a rhieni'r ysgol am eich haelioni.

Cafodd y Cyngor Eco syniad arbennig am fenter newydd cyn y Nadolig. Roeddent yn rhoi siwmperi Nadolig oedd yn rhy fach i ddisgyblion eraill ac roedd modd cyfnewid siwmperi Nadolig hefyd. Ailgylchu ar ei orau! Da iawn chi.

Roedd parti Nadolig pob dosbarth yn brynhawn i'w gofio. Cawsom neges gan Siôn Corn ac anrhegion i bob dosbarth ganddo. Daeth pawb â bwyd parti ac fe fwynheuodd y plant chwarae gemau parti.

Blwyddyn 3 a 4 yn gwledda
Roedd dosbarthiadau Branwen a Bendigeidfran yn ffodus iawn oherwydd aethant i fwyty Eidalaidd yn nhref Pontypridd a chael gwledd yno. Roedd yn rhan o'u gwaith ar y Rhufeiniaid. Roedd pawb yn edrych mor smart yn eu dillad gorau ac roedd y bwyd yn flasus dros ben. Diolch am y croeso Trattoria!

Gweithdy drymiau
Daeth Gareth o gwmni Stick 2 i gynnal gweithdai drymiau Affricanaidd gwych gyda phlant Cyfnod Allweddol 2. Roedd y plant wrth eu boddau'n creu curiadau cyson, rhythmau ac alawon gwych.

menter caerdydd

Os ydych chi am i'r plant fwynhau diwrnod llawn hwyl, beth am eu cofrestru ar gyfer ein Cynllun Gofal? Cynhelir sesiynau rhwng 8.30 y bore a 5.30 y prynhawn yn ysgolion Treganna a Melin Gruffydd a'r gost yw £28 y dydd.

Bydd **Bwrlwm!** hefyd yn dychwelyd i Gaerdydd a Bro Morgannwg gyda sesiynau chwarae'n rhad ac am ddim mewn lleoliadau amrywiol. Ymhlith y gweithgareddau eraill sydd ar y gweill mae Sioe Fyw Buddug gyda Ffion Glyn, 'Mewn Cymeriad'; gweithdai ffotograffiaeth, ffasiwn, graffiti a choginio, a bore o farchogaeth!

Cofiwch hefyd fod y clybiau arferol i blant yn parhau drwy gydol y mis, yn ogystal â'r sesiynau Amser Stori rheolaidd.

Bydd digon o weithgareddau difyr ar gyfer yr oedolion hefyd wrth gwrs.

Bydd sesiynau cerddorol 'Mewn Tiwn' yn ail-ddechrau yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbeina am 6 wythnos o fore Llun, 14 Chwefror am 11.30. Dyma bartneriaeth rhwng 'Live Music Now' a Menter Caerdydd sy'n rhoi llwyfan i gerddorion proffesiynol a chyfle i chi fwynhau paned a sgwrs wrth wrando ar gyngherddau cymunedol anffurfiol. A'r newyddion da? Maen nhw'n rhad ac am ddim!

Testun 'Sgwrs y Mis', nos Lun, 28 Chwefror fydd 'gwin'! Edrychwn ymlaen at groesawu'r arbenigwr, Dylan Rowlands i'r cyfarfod, a chlywed mwy am yr hyn sy'n gwneud gwin da.

Dydy hi ddim yn rhy hwyr i gofrestru ar gyfer y cwrs 'Byd Natur a'r Beirdd' ychwaith! Bydd y sesiynau, sy'n bartneriaeth â'r elusen Coed Lleol, yn parhau bob prynhawn Llun am 2.00 yng nghwmni'r Athro Christine James. Fel gyda nifer helaeth o'n gweithgareddau ar Zoom, mae'r cwrs yn cael ei recordio. Felly, os nad ydych chi'n gallu mynychu bob sesiwn yn fyw, cofiwch gysylltu!

Gwefan: mentercaerdydd.cymru
menterbromorgannwg.cymru

Facebook: @m.caerdydd
@MIBroMorgannwg

Instagram: https://www.instagram.com/mentercaerdydd/

E-bost: post@mentercaerdydd.cymru
Ffôn: 029 2068 9888.

Ysgol Garth Olwg

Cawsom amser gwych yn dathlu'r Nadolig yn Ysgol Garth Olwg gyda llu o weithgareddau amrywiol gan gynnwys teithiau i'r theatrau, siopau, sinema, cyngherddau a Gŵyl y Gaeaf.

Diwrnod Siwmperi Nadolig
Diolch i'r disgyblion am ymuno yn yr hwyl yn gwisgo eu siwmperi Nadolig a chyfrannu at elusennau'r ysgol. Roedd y siwmperi'n wych gan bawb eleni eto.

Taith Sioe '& Juliet' Llundain
Saith o'r gloch y bore a gwasgodd criw eiddgar blwyddyn saith, wyth a naw ar fws Edwards yn llawn cyffro ar gyfer taith Adran Gerddoriaeth yr ysgol i Lundain i weld y sioe gerddorol, '& Juliet'. Gwibiodd yr oriau heibio ac erbyn hanner awr wedi deg gwelsom nendyrau Llundain, Big Ben a'r Tŷ Cyffredin yn codi i'r entrychion … roeddwn wedi cyrraedd prifddinas Lloegr.
Yn gyntaf, aethom i 'Winter Wnderland' yn Hyde Park. Cyfle i grwydro stondinau, bwyta ein bwyd, blasu melysion Nadoligaidd o bedwar ban y byd, ac amrywiaeth o reidiau'r ffair.

Nesaf, uchafbwynt y dydd. Y sioe! Roedd Theatr Shaftesbury yn lle crand iawn llawn canhwyllyr crisial a lluniau diri. Cawson ein tywys i'n seddi, cododd y llenni a dechreuodd y sioe (spoiler!) bu farw Romeo … ond ni fu farw Juliet. Datblygodd y plot yn seiliedig ar y dewisiadau fydd hi am wneud nawr -

Chwilio am gariad arall? Teithio'r byd? Roedd y sioe yn un doniol, hwylus a llawn caneuon llwyddiannus. Sioe gwerth ei gweld.

Gyda'r gerddoriaeth yn fyw yn ein meddyliau gwargrymon i'n seddi nôl ar y bws a gadawon ni Lundain am hanner awr wedi pump. Llusgodd y bws, a'r amser, ar hyd y draffordd - ond dal i wenu a chwerthin oeddwn wrth drafod hanes Juliet. Sioe werth ei gweld a thaith fythgofiadwy.

Taith Cymreictod Ninja Warrior
Cafwyd hwyl a sbri yn Ninja Warrior Uk yng Nghaerdydd ar gyfer taith gwobrwyo Cymreictod Blynyddoedd 9-11. Roedd pawb yn chwysu wrth neidio ar y rhwystrau amrywiol a bownsio trwy'r cwrs. Taith wych i ddathlu'r disgyblion sydd yn dangos balchder tuag at ein hiaith.

Taith Blwyddyn 12 a 13
Cafwyd amser gwych yn Winter Wonderland ac yn siopa am anrhegion Nadolig yng Nghaerdydd gan ddisgyblion yr Ysgol Hŷn i ymlacio ar ddiwedd y tymor.

Taith Blwyddyn 7 ac 8
Ar ddydd Mawrth wythnos olaf y tymor aeth Blwyddyn 7 ac 8 ar deithiau i ddathlu'r Nadolig ar ddiwedd tymor prysur dros ben. Mwynheuodd y disgyblion wylio ffilm Nadolig ac yna aeth Blwyddyn 7 i Gaerdydd ac aeth Blwyddyn 8 i fowlio deg. Roedd hi'n braf iawn treulio amser yng nghwmni ffrindiau cyn y gwyliau a chael cyfle i gymdeithasu gyda'n gilydd.

Taith Blwyddyn 5 a 6

Ar Ragfyr y 9fed, aeth dysgwyr o flynyddoedd 5 a 6 ar wibdaith hynod o arbennig i Ŵyl y Gaeaf yng nghanol dinas Caerdydd. Bu'r criw yn mwynhau gydol y dydd yn sglefrio ar y rhew yng ngerddi Castell Caerdydd, yn ymweld ag arddangosfa Alys, yn prynu danteithion a bwyd blasus, a chael modd i fyw ar y reidiau amrywiol yn y ffair. Roedd gwên ar wyneb pawb - yn enwedig wrth weld campau gwych Mr Welsby ar y rhew!

Taith Blwyddyn 9, 10, 11

Ysgol Garth Olwg (parhad)

Taith Blwyddyn 9, 10, 11
Cafodd ddisgyblion Blwyddyn 9,10 ac 11 hwyl ar eu teithiau i McArthur Glen, Caerdydd ac i'r sinema yn Nantgarw ar ddiwedd y tymor. Braf oedd gadael yr ysgol i fynd ar daith ar ôl blwyddyn brysur iawn.

Institut Français
O achos COVID, nid yw'r adran Ieithoedd Rhyngwladol wedi llwyddo cael taith i Ffrainc ers peth amser. Ond er mwyn cael blas ar ddiwylliant Ffrengig aeth dosbarthiadau TGAU a Lefel A Ffrangeg ar daith i'r *Institut Français* ar ddydd Iau'r 16eg o Ragfyr. Ar ôl gadael yr ysgol yn fuan iawn, teithion ni lawr i Lundain gyda brecwast yn y gwasanaethau ar y ffordd. Cyrhaeddon ni'r *Institut Français* erbyn 10:30 am ddiwrnod o weithgareddau. Yn gyntaf, treulion ni amser yn y llyfrgell yn edrych am atebion i gwestiynau. Pwrpas y dasg oedd edrych ar ddylanwad mewnfudwyr a mewnfudo ar ddiwylliant Ffrainc. Roedd pawb yn cytuno bod effaith y dylanwad yn un cadarnhaol dros ben. Ar ôl cinio, cawsom wylio ffilm o'r enw Fahim. Mae'r ffilm yn sôn am fachgen ifanc o Fangladesh sy'n ffoi i Ffrainc gyda'i dad er mwyn dianc o sefyllfa beryglus. Yn Ffrainc, mae'n llwyddo i fireinio'i sgiliau gwyddbwyll a chymryd rhan mewn cystadlaethau. Mae hyn i gyd yn digwydd tra bod ei dad yn brwydro am yr hawl i aros yn Ffrainc. Roedd y ffilm yn hynod drawiadol ac emosiynol gydag ambell ddeigryn yn y gynulleidfa. Ar ddiwedd y dydd, cawsom gyfle i fynd i *Winter Wonderland* yn *Hyde Park*. Roedd yn gyfle gwych i ymlacio ychydig ar ôl tymor hir o waith caled. Braf oedd cael mwynhau'r atyniadau a bwyta melysion megis *churros* a wafflau. Cawsom ddydd i'r brenin a byddwn yn sicr yn ail ymweld â'r *Institut Français* yn y dyfodol. *Joyeux Noël* gan yr adran Ieithoedd Rhyngwladol.

Noson Carol a Chân
Ar ôl y siom o orfod gohirio'r Noson Carol a Chân, penderfynwyd recordio'r gyngerdd. Mae modd gwylio'r gyngerdd yn rhithiol wrth edrych ar sianel Youtube yr ysgol.

Canu carolau
Prynhawn dydd Llun, Rhagfyr 13eg, aeth criw o ddisgyblion o flynyddoedd 7-13 ac athrawon draw i rannu ychydig o hwyl yr ŵyl drwy ganu carolau y tu allan i Gartref Gofal Garth Olwg. Roedd y preswylwyr a'r disgyblion wedi mwynhau yn fawr!

Ymweliad â Siôn Corn
Cafodd ddosbarthiadau Meithrin a'r Derbyn brofiad arbennig iawn yn cwrdd â Siôn Corn a'i gorachod yng Nghanolfan arddio Woodland Walk yn Efail Isaf. Roedd pob plentyn wedi gwirioni a hyd yn oed yn fwy cyffrous erbyn hyn am y Nadolig ar ôl bod yno!

Amgueddfeydd- Amser maith yn ôl
Gan ein bod yn dod i ddiwedd ein thema 'Amser maith yn ôl' y tymor hwn, braf oedd cael croesawu nifer o rieni'r disgyblion i weld arddangosfeydd ar ffurf amgueddfa o waith penigamp y plant. Bu blynyddoedd 3 a 4 yn arddangos casgliad o waith am hanesion yr Ail Ryfel Byd.

Capel Salem
Yn ddiweddar, cerddodd dosbarthiadau blynyddoedd 1 a 2 i lawr i gapel Salem yn Nhonteg ar gyfer sesiwn ddifyr o weithgareddau crefftus Nadoligaidd. Mwynheuodd y plant y profiad yn fawr iawn. Diolch yn fawr.

Sioe Nadolig rhithiol a charolau ar iard yr ysgol
Dros yr wythnosau diwethaf bu'r disgyblion yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer ein sioe rithiol Nadolig.
Yn ogystal cafodd y rhieni bleser eu gweld yn canu carolau tu allan i'w dosbarthiadau un bore sych wythnos diwethaf. Da iawn chi blantos roedd pob un ohonoch yn wych!



Disgo ar iard yr ysgol
Mae'r disgyblion wrth eu boddau yn cael dawnsio i gerddoriaeth Gymraeg ar yr iard bob dydd Gwener. Hei Mr Urdd yw'r ffefryn hyd yma!

Ysgol Garth Olwg
(Parhad)

Gofalwn am ein byd
Ein thema ar gyfer tymor y gwanwyn yw gofalu am ein byd ag wythnos diwethaf aeth y dosbarth Meithrin a Derbyn allan o amgylch yr ysgol yn casglu sbwriel a'u didoli mewn i fagiau ail gylchu. Mae'r disgyblion yn edrych ymlaen i ddysgu llawer am ein byd y tymor hwn.

Diwrnod Pontio Blwyddyn 6 - Celfyddydau'r Garth
Bu blwyddyn 6 o'n hysgolion partner yn rhan o ddiwrnod pontio ar ddydd Iau 2ail o Ragfyr. Cafodd ddisgyblion Blwyddyn 6 y cyfle i fod gyda'r athrawon Celfyddydau Mynegiannol a chael blas o'r Adrannau Celf, Cerddoriaeth, Drama a Dylunio a Thechnoleg. Bu'r disgyblion yn brysur iawn yn cynhyrchu hetiau Nadolig o fewn gwers blasu tecstilau. Llwyddodd rai i gynhyrchu argraffiadau gan greu cardiau Nadolig yn y wers gelf ac arbrofwyd gyda thechnegau rhythm o fewn cerddoriaeth. Yn y wers ddrama cafwyd profiad o berfformio o dan y golau! Mi oedd y dydd yn un llwyddiannus a dangosodd y disgyblion falchder ac roeddent yn agored i'r her. Da iawn chi! Fel athrawon Celfyddydau'r Garth rydym yn edrych ymlaen at eich croesawu nôl rhywbryd eto!

Gweithdy Haf Weighton
Fel disgybl sy'n astudio dau o'r cyrsiau o dan yr ymbarél Celf a Dylunio, sef Celf a Ffotograffiaeth, cafwyd y cyfle i fod yn rhan o weithdy gan yr artist Haf Weighton. Mae Haf Weighton yn adnabyddus am ei gwaith aml gyfrwng tecstilau, mae wedi cael sawl arddangosfa ar hyd ei gyrfa, rhai o fewn yr ardal leol ond hefyd rhai yn Llundain a hyd yn oed Rhufain. Mwynheais Haf yn rhannu gyda ni ei thechnegau i gynhyrchu haenau wrth weithio gyda delweddau ar ffabrig. Wrth i ni arbrofi gyda'r technegau a phrosesau llwyddon i gynhyrchu cerdyn post ar ddarn o ddefnydd, esboniodd Haf ein bod yn rhan o brosiect gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Y Bathdy Brenhinol a Choleg y Cymoedd. Ein bwriad yw gweithio ar y cyd i gynhyrchu arddangosfa sy'n hybu'r Iaith Gymraeg mewn modd gweledol a chreadigol. Felly edrychwn ymlaen at wahodd Haf mewn unwaith eto ym mis Ionawr i barhau'r gwaith ar gyfer cynhyrchu ein darnau ar gyfer yr arddangosfa.

Gan Seren Chicken, Bl12.

Taith Blwyddyn 7 i Theatr y Sherman
Teithiodd 60 disgybl o Flwyddyn 7 i weld cynhyrchiad A Christmas Carol yn Theatr y Sherman ar y 9fed o Ragfyr. Roedd e'n brofiad llawn hwyl ac yn ffordd wych o atgyfnerthu dealltwriaeth y disgyblion o gymeriad Scrooge yn dilyn eu gwaith ar Charles Dickens gyda'r adran Saesneg. Roedd y set yn safonol iawn a'r actio yn wych. Cafodd Scrooge ei chwarae gan fenyw gan arwain at drafodaethau dwys am ystrydebau wrth gymeriadu. Roedd y Ghost of Christmas Present yn ddoniol iawn ac yn annog y gynulleidfa i ddawnsio a chanu! Canwyd yn y Gymraeg ac yn Saesneg ac roedd e'n braf gweld traddodiadau Cymreig o Oes Fictoria fel y Fari Lwyd ar y llwyfan hefyd. Am daith wych! Roedd e'n hyfryd i fod nôl yn y theatr!

Prosiect Dosbarth Meistr Lefel A Hanes gyda Phrifysgol Caerdydd
Cafon ni fel astudwyr Hanes lefel A, y cyfle i fynd ar daith i Aberystwyth ac ymweld â Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Yn ystod y dydd, cafon ni'r fraint o gwrdd â Dr Marion Loeffler, darllenydd hanes Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd. Prif ffocws ein profiad oedd Terfysg Merthyr Tudful yn 1800au. Dysgon ni am y digwyddiad a'r effaith a gafodd ar bobl yn y cyfnod. Yn sicr roedd hyn o ddiddordeb i ni, ac roedd yn ddiddorol iawn i fi fel aelod o flwyddyn tair ar ddeg gan roedd y gwaith yn berthnasol i'n hastudiaethau ar y Chwyldro Ffrengig blwyddyn yma. Roedd cael y cyfle i weld y cysylltiadau rhwng ein hastudiaethau yn yr ysgol a digwyddiadau fel terfysg Merthyr Tudful yn gyfle anhygoel! Yn ogystal â hyn, cafon ni'r cyfle i gydweithio gyda'n gilydd ac i weithio yn unigol er mwyn anodi ffynonellau o'r cyfnod. Roedd hyn yn berthnasol ac o fudd i ni gyd, a rhoddodd gyfle arbennig i ni ddefnyddio ein sgiliau o astudio Hanes lefel A mewn cyd-destun gwahanol. Yn sicr, roedd y profiad yma yn un fydd o gymorth mewn amrywiaeth o ffyrdd megis gweithio gyda ffynonellau yn y dyfodol ac i fedru addasu fy sgiliau er mwyn cael defnydd ohonyn nhw yn y Brifysgol. Roedd y dydd yn bennaf yn un addysgiadol, ond cafon ni'r cyfle i ymweld â'r dref a mwynhau amser rhydd gyda ffrindiau hefyd! Credaf roedd y profiad yma yn un buddiol iawn ac rydw i'n gwerthfawrogi'r ymdrech aeth mewn i gynllunio'r diwrnod.

Gan Ella Minas, Bl 13.

Gweithdy Creu Murlun
Diolch yn fawr i Siôn Owen am ddod i'r ysgol i gynnal gweithdy gyda chriw o ddisgyblion Blwyddyn 11. Roedd rhai o'r disgyblion yn gweithio ar gerdd ar gyfer y murlun a chriw arall yn brysur yn dylunio. Mae'r gwaith terfynol yn edrych yn wych ac edrychwn ymlaen at weld y murlun ar wal yr adran Gymraeg.

Ysgol Garth Olwg (parhad)

Ymweliadau Daearyddiaeth

Ym mis Hydref aeth disgyblion Blwyddyn 13 sy'n astudio Daearyddiaeth ar sawl ymweliad gwaith maes ar gyfer eu hymchwiliadau unigol. Roedd pob disgybl wedi dewis thema wahanol ac felly aethom ni i dwyni tywod Merthyr Mawr a thraeth Southerndown ar ein diwrnod cyntaf. Roedd y tywydd yn braf iawn y ddau ddiwrnod er bach yn wyntog. Gwnaeth pawb fwynhau rhedeg i lawr y 'Big dipper' a hefyd roedd ambell ddisgybl wedi cael eu traed yn wlyb ar ein hymweliad i Southerdown! Ar ein hail ddiwrnod gwnaethon waith coetir yn nghoedwig Ty'n y Coed ble aethom ni ar goll ar ein ffordd nôl trwy'r goedwig! Llwyddom i gyrraedd Cathays i holi myfyrwyr yn y prynhawn a hefyd Bae Caerdydd er mwyn edrych mewn i amddifadedd. Dau ddiwrnod buddiol iawn i'r disgyblion sydd nawr wrthi yn ysgrifennu eu hymchwiliadau unigol.

Llwyddiannau Chwaraeon

Llongyfarchiadau i ferched Blwyddyn 7 ac 8 am ddod yn ail yng nghystadleuaeth plât pêl-rwyd yr Urdd gan golli 5-6 i Glantaf yn y rownd derfynol!

Mae Megan Bowen wedi cael ei dewis fel capten dros dro i dîm menywod Barri FC yn ddiweddar. Arweiniodd Megan y tîm i fuddugoliaeth yn erbyn Pontypridd ar gyfer gêm olaf adref y tymor gyda sgôr o 3-0!

Enillodd Abigail Protheroe a Lily Prygodzicz bencampwriaeth Brydeinig am yr ail dro, yn ogystal â Phencampwriaeth Ewropeaidd ar ddiwedd mis Tachwedd fel rhan o dîm ffurfiant 8 pâr a 4 pâr yng nghystadlaethau Blackpool a Stoke. Perfformiwyd dawns America Lladin eto flwyddyn yma i gipio'r goron am yr ail dro!

Llongyfarchiadau i Kacey Peck a Ruby Neale am eu llwyddiannau dawnsio diweddaraf. Daeth Kacey yn gyntaf yng nghystadleuaeth Ewrop gyda'r ddawns Adam a Eve a daeth y ddwy yn ail o Dan 14 gyda'r ddawns Be Kind. Roedd y tîm hefyd wedi ennill y Bencampwriaeth Brydeinig gyda'r ddawns Adam a Eve a thrydydd yn y Bencampwriaeth Brydeinig gyda'r ddawns Be Kind.

Llongyfarchiadau i griw o fechgyn Blwyddyn 9 am ennill eu capiau rygbi dros Rhondda Cynon Taf.

GWEITHGAREDDAU HANNER TYMOR MENTER CAERDYDD A MENTER IAITH BRO MORGANNWG

Cynllun Gofal Treganna Cynllun Gofal Melin Gruffydd	Llun 21.02 - Gwener 25.02 08:30-17:30 - £28 y dydd
Marchogaeth yn Liege Manor	Bore Mawrth 22.02 9-16 oed - Am ddim
Sioe Fyw Buddug gyda Ffion Glyn, 'Mewn Cymeriad'	Gwener 25.02 7-11 oed - Am ddim
Cynllun Chwarae BWRLWM! Sesiynau bore a phrynhawn mewn lleoliadau amrywiol yng Nghaerdydd. Am ddim!	Ac yn y Fro: Llun: Clwb Athletau Penarth Mawrth: Ysgol Gwaun y Nant Mercher: Clwb Rygbi Llanilltud Fawr Iau: Ysgol Sant Baruc
Gweithdai eraill ar y gweill: Coginio; Ffotograffiaeth; Ffasiwn; Graffiti!	MC: Rhif Elusen: 1098606. Rhif Cwmni: 4576565 MIBM - Rhif Elusen: 1179555. Rhif Cwmni: 08867706

Canolfan Garth Olwg Centre

Sgwrs y mis

23.02.22 ~ 7.30-8.30

Am ddim

Sgwrs Gymraeg, arlein

Bywyd yn Y Wladfa

gyda

Catrin Morris de Junyent

Ymunwch â Catrin wrth iddi rhannu ei phrofiad o fyw yn yr Ariannin ac ym Mhatagonia'n benodol yn yr unfed ganrif ar hugain: Y wlad, y tir, y bobl, ei hanes a'i diwylliant.

I gadw lle ewch i:

www.bookwhen.com/gartholwg

Canolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg Lifelong Learning Centre

Garth Olwg Lifelong Learning Centre, CF38 1RQ

Canolfan Garth Olwg Centre

gartholwgllc

01443 570 075